**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG**

**BRECON BEACONS NATIONAL PARK AUTHORITY**

# Datganiad o Gyfrifon

## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar

## 31 Mawrth 2023



**DATGANIAD O GYFRIFON 2022/23**
**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG**

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Adroddiad Naratif a Chyfrifon Cryno | 3 |
| Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon | 11 |
| Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu | 12 |
| Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 23 |
| Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn | 24 |
| Y Fantolen | 26 |
| Datganiad o Lif Arian Parod | 27 |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol | 28 |
| Geirfa | 64 |
| Datganiad Llywodraethiant Blynyddol | 65 |
| Adroddiad Archwilio | 84 |

## ADRODDIAD NARATIF

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn gyhoeddiad sy'n ofynnol gan y gyfraith ac sy'n rhoi gwybodaeth glir i randdeiliaid, cyllidwyr lleol ac aelodau'r Awdurdod am berfformiad ac am sefyllfa ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Caiff y Datganiad o Gyfrifon ei lunio er mwyn rhannu gwybodaeth am berfformiad a statws ariannol yr Awdurdod. Mae'r Adroddiad Naratif hwn yn rhoi crynodeb o'r Datganiad o Gyfrifon. Mae ynddo wybodaeth ariannol allweddol sy'n cynnwys cyfrif refeniw wedi'i grynhoi, yn ogystal â gwybodaeth ategol, er mwyn egluro cost gwasanaethau a'r modd y cafodd costau eu cyllido.

Mae'r gyfraith yn mynnu bod yr Awdurdod yn llunio Datganiad o Gyfrifon blynyddol yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol fel y cânt eu nodi gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn ei God Ymarfer ar Gyfrifyddu ar gyfer Awdurdodau Lleol 2022-23 (y Cod). Mae'n ofynnol hefyd i'r Awdurdod gydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.

Mae'r Naratif hwn yn rhoi esboniad cryno o'r materion pwysicach yn y cyfrifon. Caiff datganiadau cyfrifyddu eu nodi ar dudalennau'n nes ymlaen ac maent yn cynnwys y canlynol: -

**Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu** – y sail dros gynnwys symiau yn y cyfrifon gan ddefnyddio egwyddorion cyfrifyddu a dderbynnir.

**Y Datganiadau Ariannol Craidd**

- **Y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** – yr incwm a'r gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol, gyda nodiadau sy'n esbonio'r ffigurau ymhellach. Mae'r Cod yn mynnu bod strwythur yn perthyn i'r datganiad hwn a'i fod yn cyd-fynd â'r dadansoddiad o incwm a gwariant fesul gwasanaeth, y mae'r Awdurdod yn adrodd yn eu cylch. Felly, mae'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn adrodd ynghylch dadansoddiad o wariant ac incwm fesul Cyfarwyddiaeth.
- **Y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn** – mae'n dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn mewn cronfeydd wrth gefn a gaiff eu dal gan yr Awdurdod, wedi'u rhannu yn gronfeydd wrth gefn 'defnyddiadwy' ac yn gronfeydd wrth gefn 'annefnyddiadwy'. Mae'r datganiad yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Awdurdod, a sut y caiff y costau hynny eu cyllido o'r amryw gronfeydd wrth gefn a gaiff eu dal.
- **Y Fantolen** – yr asedau a'r rhwymedigaethau, yr arian parod a gaiff ei ddal, a'r symiau a oedd wedi'u rhoi o'r neilltu mewn cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Caiff nodiadau eu darparu i roi manylion pellach am falansiau penodol.
- **Y Datganiad o Lif Arian Parod** – mae'n dangos y newidiadau yn arian parod yr Awdurdod, ac mewn elfennau sy'n cyfateb i arian parod, yn ystod y cyfnod yr

adroddir yn ei gylch. Caiff esboniad pellach ei ddarparu yn y nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Datganiad.

Llofnododd y swyddog cyllid cyfrifol y Datganiad o Gyfrifon (yn amodol ar archwiliad) ar 10/8/2023. Mae digwyddiadau arwyddocaol ar ôl dyddiad y Fantolen a hyd at y dyddiad cymeradwyo wedi'u hystyried wrth baratoi'r Datganiad. Mae'r Datganiad wedi'i archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a chaiff copi o'i adroddiad ef ei gyhoeddi gyda'r Datganiad pan fydd yn dod ar gael ar ôl cwblhau'r archwiliad. At hynny, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Datganiad Llywodraethiant. I gael rhagor o wybodaeth a chael esboniad ynglŷn ag eitemau yn y ddogfen hon, cysylltwch â thîm cyllid yr Awdurdod: finance@beacons-npa.gov.uk

## 2. YNGLŶN AG AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

Mae'r Awdurdod yn ymestyn ar draws 520 o filltiroedd sgwâr ac mae'n un o dri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru. Ers 1 Ebrill 1996, mae'r Awdurdod wedi bod yn Awdurdod Lleol annibynnol â Diben Arbennig ac mae ganddo ddau ddiben statudol ac un ddyletswydd:

**Dibenion:**

- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.

- Hybu cyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau a deall rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.

**Dyletswydd:**

- Meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol.

Yr Awdurdod yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol statudol ar gyfer yr ardal, ac mae'n gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ac am benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio.

Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Cynllun Corfforaethol sy'n egluro sut y mae'n bwriadu defnyddio ei adnoddau yn ystod y flwyddyn nesaf i gyflawni'r dibenion a'r ddyletswydd yn unol â'i Gynllun Rheoli cyfredol ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2022-2027. Caiff adolygiad o berfformiad yr Awdurdod ar sail y Cynllun Corfforaethol ei gynnal bob blwyddyn. Caiff y dogfennau hyn eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod https://bannau.cymru/

## 3. INCWM A GWARIANT

Y gost gros i'r Awdurdod o ddarparu ei wasanaethau, fel yr adroddwyd yn ei chylch wrth yr Aelodau yn ystod y flwyddyn at ddibenion rheoli, oedd £6,537,000. Mae'r tabl isod yn crynhoi gwariant a ffynonellau cyllid ac yn dangos bod £128,000 wedi'i drosglwyddo o'r Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn. Yn ogystal, cafodd £76,000 net ei drosglwyddo o Gronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi.

Mae Llywodraeth Cymru yn pennu lefel gwariant refeniw net cymeradwy'r Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ac mae'n talu 75% o'r swm hwnnw ar ffurf Grant y Parc Cenedlaethol. Yna,

gall yr Awdurdod godi'r 25% sy'n weddill drwy godi ardoll ar yr Awdurdodau Unedol cyfansoddol. Mae'r awdurdodau hynny fel a ganlyn: Cyngor Sir Powys, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid refeniw a chyfalaf penodol ar gyfer cyflawni prosiectau sy'n flaenoriaeth. Os na ellir ei ddefnyddio'n llawn yn ystod y flwyddyn y daw i law, caiff ei ddal mewn cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi a'i ddefnyddio yn ystod y blynyddoedd sy'n dilyn.

**Cymharu incwm a gwariant gwirioneddol: Y flwyddyn ariannol gyfredol a'r flwyddyn ariannol flaenorol**

| | **2022/23**<br>**£000** | **2021/22**<br>**£000** |
|---|---|---|
| Grant y Parc Cenedlaethol | 3,144 | 3,179 |
| Ardoll y Parc Cenedlaethol | 1,035 | 1,036 |
| Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau | 1,253 | 991 |
| Ffïoedd, Taliadau ac Incwm Arall Gwasanaethau | 843 | 952 |
| Llog Derbyniadwy | 58 | 7 |
| | **6,333** | **6,165** |
| | | |
| Treuliau Cyflogeion | 4,105 | 3,711 |
| Treuliau Eraill Gwasanaethau | 2,432 | 2,301 |
| | **6,537** | **6,012** |
| Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd Wrth Gefn | (76) | 145 |
| **Cyfanswm Gwariant ar ôl Trosglwyddiadau Net i/o Gronfeydd Wrth Gefn** | **6,461** | **6,157** |
| **(Cost)/Incwm Net Gwasanaethau (Cyfraniad i/o'r Gronfa Gyffredinol)** | (128) | 8 |

Mae incwm a gynhyrchir yn lleol a grantiau penodol yn cael eu dyrannu i wasanaethau unigol ac yn cael eu gosod yn erbyn y gwariant ar y penawdau hynny er mwyn dod i gyfanswm y cyllidebau a'r costau net fel yr adroddir yn eu cylch wrth y rheini sy'n gyfrifol am reoli'r Awdurdod. Mae'r tabl uchod yn dangos sut y mae cost net gwasanaethau yn deillio o incwm a gwariant gros (gweler Nodyn 1, Dadansoddiad o Wariant a Chyllid i weld sut y caiff symiau yr adroddwyd yn eu cylch wrth y tîm rheoli fesul Cyfarwyddiaeth eu cysoni â'r cyfansymiau yr adroddwyd yn eu cylch yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Mae'r costau net ar gyfer pob gwasanaeth yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys dibrisiant (cost traul ar adeiladau, cyfarpar, ac ati). Gwneir addasiadau hefyd ar gyfer costau pensiwn yn unol â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19: Buddion Ymddeol. Bwriad yr addasiadau technegol hyn yw sicrhau bod cyfrifon yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r Polisïau Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU. Maent yn dangos y gost lawn i'r Awdurdod, yn y flwyddyn ariannol berthnasol, o gyflawni ei holl ymrwymiadau yn y dyfodol i'w gyflogeion presennol a blaenorol dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Nid yw'r addasiadau hyn yn effeithio ar wariant refeniw net yr Awdurdod, y mae Llywodraeth Cymru a threthdalwyr lleol yn talu amdano ac y mae incwm a gynhyrchir drwy ddarparu gwasanaethau'n ychwanegu ato. Mae esboniad llawn o'r sail dros y taliadau dan Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 i'w weld yn Nodyn 30. Nid yw'r addasiadau wedi'u cynnwys yn y ffigurau a gyllidebwyd, gan nad ydynt yn effeithio ar gost gweithrediadau'r Awdurdod at ddibenion rheoli.

Mae'r addasiadau dan Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 yn effeithio ar asedau'r Awdurdod fel y cawsant eu cofnodi yn y Fantolen, ac yn cynyddu gwerth asedau net cyffredinol yr Awdurdod i falans o £11.918 miliwn. O ddiystyru addasiadau'r Gronfa Bensiwn, byddai asedau net yr Awdurdod yn werth £11.345 miliwn. Yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae'r asesiad actiwaraidd o asedau a rhwymedigaethau'r Awdurdod yn y Gronfa wedi dangos cynnydd actiwaraidd net o £11.83 miliwn. Y llynedd, dywedwyd y byddai yna gynnydd actiwaraidd o £5.270 miliwn.

**Datblygiadau arwyddocaol sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod**

Yn 2022/23, roedd cyllid refeniw craidd yr Awdurdod gan Lywodraeth Cymru yn ddigyfnewid o safbwynt arian parod. Ceisiodd yr Awdurdod ddefnyddio'r cyllid hwnnw i gyflawni ei ddibenion statudol a blaenoriaethau'r Llywodraeth, ac ychwanegodd incwm a gynhyrchir yn lleol ac amrywiaeth o gyllid grant at y cyllid hwnnw. Mae gwariant cyffredinol yr Awdurdod wedi cynyddu 8.7% rhwng 2021/22 a 2022/23. Y prif reswm am hynny oedd dyfarniad cyflog heb ei gynllunio ynghyd â chynnydd cyffredinol mewn chwyddiant – roedd y ddau yn uwch na'r lefel a ragwelwyd.

Mae'r Awdurdod wedi elwa'n ariannol o fod â nifer sylweddol o swyddi gwag, sydd wedi lleihau effaith y dyfarniad cyflog. Roedd yr effaith ar y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol yn 2022/23 yn llai na'r disgwyl oherwydd cyfraniad grant gan y rhaglen Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy; llog banc, a oedd yn uwch na'r swm a ragwelwyd; a'r ffaith na chafodd prosiectau eu symud ymlaen mor gyflym â'r disgwyl.

Llwyddwyd i gael grantiau ychwanegol o amryw ffynonellau yn ystod y flwyddyn, gyda'r Awdurdod yn gwario £1.12 miliwn ar asedau wedi'u cyfalafu, a chaiff hynny ei adlewyrchu yn yr Asedau Anghyfredol (gweler Nodyn 14: Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar a Nodyn 15: Asedau Anniriaethol).

Mae cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn galluogi'r Awdurdod i neilltuo arian wrth gefn i fodloni ymrwymiadau yn y dyfodol, megis costau Cymorth i Brosiectau, yr Ymchwiliad i'r Cynllun Datblygu Lleol, ac ymrwymiadau grantiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Caiff y cronfeydd wrth gefn hyn eu defnyddio os nad yw dyddiad derbyn cyllid yn cyd-fynd â blwyddyn ariannol y gwariant cysylltiedig.

Bu gostyngiad yng nghyfanswm cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Awdurdod rhwng 31 Mawrth 2022 a 31 Mawrth 2023, o £3.885 miliwn i £3.480 miliwn. Mae'r rhan fwyaf o'r cronfeydd hynny wedi'u neilltuo ar gyfer gwaith prosiect penodol ac ymrwymiadau eraill. Mae'r defnydd a wnaed o rai cronfeydd wrth gefn wedi'i achosi yn rhannol gan oedi wrth gyflawni prosiectau.

Yn gyffredinol, fodd bynnag, cafodd tua £243,000 ei ddefnyddio yn ystod y flwyddyn o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, i ariannu gweithgareddau refeniw a chyfalaf.

Isod, caiff yr incwm a'r gwariant a gyllidebwyd ar gyfer pob gwasanaeth eu cymharu â chyfrif incwm a gwariant gwirioneddol y gwasanaeth ar gyfer 2022/23. Mae'r gymhariaeth

yn dangos bod yr Awdurdod wedi bwriadu trosglwyddo £290,000 o'i Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn, ond ei fod mewn gwirionedd wedi trosglwyddo £128,000 ar gyfer gweithgareddau refeniw craidd, sy'n swm is o lawer. Y prif reswm dros y trosglwyddiad llai na'r disgwyl oedd y ffaith bod trefniadau mewnol wedi'u rhoi ar waith ar gyfer ailgodi tâl a bod arian ychwanegol wedi dod i law.

At hynny, rhagwelir y bydd defnydd sylweddol yn cael ei wneud yn ystod y blynyddoedd a ddaw o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, yn enwedig y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol, ac y bydd hynny'n golygu bod gwerth y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n gostwng yn sylweddol.

Mae'r tabl isod yn cydymffurfio â Chod Ymarfer cyfredol CIPFA, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau roi cyfrif am incwm a gwariant yn yr un strwythur gwrthrychol ag a ddefnyddir i adrodd wrth y tîm rheoli.

Er mwyn gallu cymharu'r gyllideb ddiwygiedig â'r alldro, mae trefniadau ailgodi tâl ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer taliadau cyfalaf (dibrisiant), absenoldebau cronedig a chostau cynlluniau pensiwn a aseswyd yn actiwaraidd (yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol) wedi'u cynnwys yn ffigurau'r gyllideb er mwyn rhoi cyfanswm wedi'i addasu.

**Crynodeb o’r prif amrywiannau rhwng cyllideb 2022/23 fel y cafodd ei haddasu a’r Datganiad o Gyfrifon**

| **Costau Net Gwasanaethau** | **Cyllideb 2022/23 wedi’i haddasu*** | **Alldro 2022/23*** | **Amrywiant 2022/23 o gymharu â’r gyllideb wedi’i haddasu** |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| Swyddfa’r Prif Weithredwr a Chyfathrebu | 549 | 439 | 110 |
| Adran y Swyddog Monitro a’r Cyfreithiwr | 534 | 508 | 26 |
| Natur a Newid Hinsawdd | 1,549 | 1,543 | 6 |
| Cynllunio a Lle | 2,357 | 2,342 | 15 |
| Adran y Rheolwr Rhaglenni | 714 | 715 | (1) |
| **Cost net wedi’i haddasu** | **5,703** | **5,547** | **156** |
| Llog a dderbyniwyd | (5) | (58) | 53 |
| Grant y Parc Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru) | (3,140) | (3,144) | 4 |
| Ardoll y Parc Cenedlaethol (Awdurdodau Cyfansoddol) | (1,047) | (1,035) | (12) |
| Grant Cyfalaf y Parc Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru) | (918) | (918) | 0 |
| Trosglwyddwyd i/(o) Gronfeydd Wrth Gefn wedi’u Clustnodi | (115) | (76) | (39) |
| **Incwm net wedi’i addasu** | **(5,225)** | **(5,231)** | **6** |
| | | | |
| Addasiadau Cyfrifyddu wedi’u gwrthdroi | **(188)** | **(188)** | 0 |
| **Diffyg /(Gwarged) net** | **290** | **128** | **162** |

*sy’n cynnwys dibrisiant tybiannol, addasiadau safonau cyfrifyddu ar gyfer costau pensiwn, ac elfennau eraill sy’n ofynnol gan CIPFA ar gyfer paratoi cyfrifon.

## Amrywiannau arwyddocaol yr adroddwyd yn eu cylch wrth y tîm rheoli

**Swyddfa’r Prif Weithredwr a Chyfathrebu**

Cafodd tanwariant ar gyflogeion ynghyd â mwy o incwm o ffïoedd ffilmio a grantiau ychwanegol effaith sylweddol ar y tanwariant cyffredinol yn y Gyfarwyddiaeth. Fodd bynnag, gorwariwyd ar ffïoedd archwilio, a effeithiodd ar y tanwariant cyffredinol.

**Adran y Swyddog Monitro a'r Cyfreithiwr**
Gorwariwyd ryw ychydig ar danysgrifiadau, cyhoeddiadau cyfeirio a ffïoedd proffesiynol yn ystod y flwyddyn, ac er bod gwasanaethau cyfreithiol wedi gorwario gwnaeth gwasanaethau democrataidd (sydd yn yr un grŵp) danwario'n sylweddol.

**Natur a Newid Hinsawdd**
Mae'r sefyllfa yn adlewyrchu tanwariant at ei gilydd, oherwydd bod cyllid ychwanegol wedi'i dderbyn o grant gan y rhaglen Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy. Roedd yna fylchau o ran staff hefyd oherwydd swyddi gwag, a chafodd prosiectau eu gweithredu'n arafach na'r disgwyl oherwydd bod uwch-gydweithwyr newydd am ystyried blaenoriaethau cyfredol yr Awdurdod cyn parhau. At hynny, ni chafodd cronfa o bwys a neilltuwyd ar gyfer y prosiect 'Arwyddion Hanfodol' ei chymeradwyo gan y rhoddwr tan yn hwyr yn y flwyddyn ariannol.

**Cynllunio a Lle**
Mae cyfuniad o amrywiannau – rhai cadarnhaol a rhai andwyol – wedi arwain at y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd incwm o feysydd parcio yn is na'r disgwyl, sy'n adlewyrchu'r gostyngiad yn niferoedd ymwelwyr ar ôl COVID-19. Nodwyd gorwario sylweddol yn y cyllidebau ar gyfer trydan mewn dwy ganolfan ymwelwyr, a rhagwelir y bydd hynny'n parhau nes y bydd cost ynni'n sefydlogi. Tua diwedd y flwyddyn ariannol, cytunwyd ar gostau ychwanegol yn sgil ôl-ddyddio costau gwasanaethau'n ymwneud â swyddfeydd y pencadlys, ond roedd yna danwariant o hyd gan y Gyfarwyddiaeth.

**Adran y Rheolwr Rhaglenni**
Cafwyd gorwariant bach gan y Gyfarwyddiaeth, cyn ystyried llog a dderbyniwyd. Aethpwyd i gostau ychwanegol ar TG oherwydd yr angen i wella diogelwch TG a phrosesau dilysu, er mwyn gwella seiberddiogelwch yr Awdurdod.

At ei gilydd, mae'r rhagolygon ar gyfer yr Awdurdod o ran cyllid yn parhau'n ddyrys wrth i ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod barhau i fod yn drech na phopeth arall. Er bod yr economi fel pe bai'n cyrraedd diwedd y cyfnod lle gwelwyd effaith COVID-19, rydym yn gweld bod y DU mewn cyfnod economaidd newydd sydd yr un mor anodd i'w ragweld. Yn ffodus, nid oes gan yr Awdurdod fenthyciadau sy'n golygu bod yn rhaid talu llog, ond disgwylir y bydd y marchnadoedd ariannol ansefydlog yn effeithio ar chwyddiant ac y bydd hynny yn ei dro'n effeithio ar wariant yr Awdurdod yn y dyfodol. Yn y cyfamser, disgwylir y bydd incwm craidd yn parhau'n ddigyfnewid a gallai'r gostyngiad graddol a ddisgwylir yn yr economi gael effaith andwyol ar gyllidebau aelwydydd, gan effeithio ar lefel eu hincwm a'r arian y maent yn ei wario.
Mae'r Awdurdod yn parhau i adolygu'n llawn y Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi, er mwyn sicrhau bod modd i brif nodau ac amcanion yr Awdurdod, ac yn enwedig prif nodau ac amcanion prosiectau, gael eu cyflawni o'r cronfeydd wrth gefn hynny.

**4) GWARIANT CYFALAF**

Caiff crynodeb o wariant y gellir ei ystyried yn gyfalaf at ddibenion cyfrifyddu ei ddarparu isod:

| | **2022/23 Gwirioneddol** |
|---|---:|
| | **£000** |
| Mynediad i'r Ucheldir a Phrosiectau Gwella Hawliau Tramwy | 246 |
| Adfer Mawndir | 389 |
| Y Gronfa Twf Gwyrdd – datgarboneiddio canolfannau ymwelwyr | 52 |
| Ceblau Ffeibr | 50 |
| Dylunio Llwybr y Pedwar Sgwd (gwaith sy'n parhau) | 5 |
| Cerbydau a Chyfarpar | 134 |
| Gwelliannau i Ganolfannau Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol | 244 |
| Cyfanswm gwariant a gaiff ei ystyried yn gyfalaf dan ddiffiniad a pholisïau cyfrifyddu* | 1,120 |
| Namyn: | |
| Grantiau a Chyfraniadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn | (918) |
| Trosglwyddwyd o'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf Nas Defnyddiwyd | (146) |
| Defnydd o'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf | (24) |
| Arian Cymynroddion wedi'i gynnwys mewn Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi | (31) |
| Cyllido Refeniw | (1) |
| Gwariant Net | (1,120) |

***Mae gwariant sy'n bodloni'r diffiniad cyfrifyddu o gyfalaf wedi'i ystyried yn gyfalaf ac wedi'i ariannu drwy grantiau a gafwyd yn ystod y flwyddyn, defnyddio derbyniadau cyfalaf, dyrannu cymynroddion a neilltuo arian o'r Cyfrif Refeniw. Mae gwariant yn bodloni'r meini prawf de minimis cyfrifyddu perthnasol (fel yr amlinellir ym mholisïau cyfrifyddu'r Awdurdod). Pan gaiff prosiectau eu cwblhau, caiff yr ased sy'n deillio ohonynt ei gynnwys ym Mantolen yr Awdurdod.**

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O GYFRIFON**

**CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD**

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod:-

- o Wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol, a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y swyddog dan sylw yw'r Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151).
- o Rheoli ei faterion er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol ac er mwyn diogelu ei asedau.
- o Cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

**CYFRIFOLDEBAU'R PRIF SWYDDOG CYLLID**

Mae'r Prif Swyddog Cyllid/Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am baratoi Datganiad yr Awdurdod o Gyfrifon yn unol ag arferion priodol fel y cânt eu nodi yn nogfen CIPFA/LASAAC *Code of Practice on Local Authority Accounting in the United Kingdom.*

**Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon, bydd y Prif Swyddog Cyllid:-**

- Wedi dewis polisïau cyfrifyddu addas ac wedi'u gweithredu yn gyson;
- Wedi llunio barn ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ofalus;
- Wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer.

**Bydd y Prif Swyddog Cyllid hefyd:**

- Wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd wedi'u diweddaru;
- Wedi cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar y dyddiad cyfrifyddu ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i'r swyddog ariannol cyfrifol ailardystio'r Datganiad yn union cyn iddo gael ei fabwysiadu gan yr Awdurdod ac ar ôl cwblhau'r archwiliad, a bydd y Cadeirydd yn ardystio bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r Datganiad a archwiliwyd.

Dyddiad: 14 Chwefror 2024

Swyddog Adran 151
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Dyddiad: 14 Chwefror 2024

Cadeirydd
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

# Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

## Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn, sef 31 Mawrth 2023. Diben y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu yw esbonio seiliau cyfrifyddu'r ffigurau sydd yn y cyfrifon.

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r canlynol:

- Cod Ymarfer y flwyddyn gyfredol ar Gyfrifyddu ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod)
- Y nodiadau cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan CIPFA ar ddefnyddio Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol.

## Cysyniadau Cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r egwyddorion a'r cysyniadau cyfrifyddu canlynol:

Egwyddorion: perthnasedd, dibynadwyedd, cymharedd, natur ddealladwy.

Cysyniadau: materoldeb, cynrychiolaeth driw, amseroldeb, croniadau, busnes gweithredol, uchafiaeth gofynion deddfwriaethol.

Mae'r egwyddorion a'r cysyniadau hyn wedi'u defnyddio wrth ddewis a gweithredu polisïau cyfrifyddu a thechnegau amcangyfrif ac wrth arfer barn broffesiynol.

## Cronni Incwm a Gwariant

Rhoddir cyfrif am weithgarwch yn y flwyddyn y mae'n digwydd ynddi, nid pan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu'u derbyn yn unig. Yn benodol:

- Caiff refeniw o werthu nwyddau ei gydnabod pan fydd yr Awdurdod yn trosglwyddo risgiau ac enillion arwyddocaol perchnogaeth i'r prynwr a phan fo'n debygol y bydd y buddion economaidd neu'r potensial o ran gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodyn yn dod i'r Awdurdod.
- Caiff refeniw o ddarparu gwasanaethau ei gydnabod pan fydd yr Awdurdod yn gallu mesur yn ddibynadwy pa ganran o'r trafodyn sydd wedi'i chwblhau, a phan fo'n debygol y bydd y buddion economaidd neu'r potensial o ran gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodyn yn dod i'r Awdurdod.
- Caiff cyflenwadau eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio – os oes bwlch rhwng dyddiad derbyn cyflenwadau a dyddiad eu defnyddio, cânt eu cario fel rhestrau eiddo ar y Fantolen.
- Os yw refeniw a gwariant wedi'u cydnabod ond nad yw arian parod wedi'i dderbyn neu'i dalu, caiff dyledwr neu gredydwr ar gyfer y swm perthnasol ei gofnodi ar y Fantolen. Os yw'n bosibl na chaiff dyledion eu clirio, caiff balans y dyledwyr ei leihau a chodir tâl ar y cyfrif gwariant ac incwm am yr incwm y mae'n bosibl na chaiff ei gasglu.

- Ni fydd trafodion sy'n werth llai na £1,000 yn cael eu cronni oni bai bod rhesymau gweithredol penodol dros wneud hynny, megis gweinyddu hawliad am grant.

**Arian Parod ac Elfennau sy'n Cyfateb i Arian Parod**

Arian parod yw arian parod mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol, y mae modd iddynt gael eu had-dalu heb gosb, o roi 24 awr neu lai o rybudd. Elfennau sy'n cyfateb i arian parod yw buddsoddiadau sy'n aeddfedu cyn pen 3 mis neu lai ar ôl dyddiad eu caffael, ac y gellir eu trosi'n hwylus i symiau hysbys o arian parod heb fod risg sylweddol o newid yn eu gwerth.

Yn y Datganiad o Lif Arian Parod, caiff arian parod a'r elfennau sy'n cyfateb i arian parod eu dangos heb gynnwys gorddrafftiau banc sy'n ad-daladwy ar gais ac sy'n rhan annatod o reolaeth yr Awdurdod ar arian parod.

**Codi ar Refeniw am Asedau Anghyfredol**

Caiff gwasanaethau, a gwasanaethau cymorth, eu debydu â'r symiau canlynol er mwyn cofnodi cost dal asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn:

- Dibrisiant y gellir ei briodoli i'r asedau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth perthnasol
- Colledion ar asedau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth, oherwydd ailbrisio ac amharu, lle nad oes unrhyw enillion wedi cronni yn y Gronfa wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio y gellir eu defnyddio i ddileu'r colledion
- Amorteiddio asedau sefydlog anniriaethol y gellir eu priodoli i'r gwasanaeth.

**Rhwymedigaethau Digwyddiadol, Asedau Digwyddiadol a Darpariaethau**

**Rhwymedigaethau Digwyddiadol**

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn codi os cafwyd digwyddiad sy'n gosod ymrwymiad posibl ar yr Awdurdod, ac na fydd bodolaeth yr ymrwymiad hwnnw'n cael ei chadarnhau nes y bydd neu na fydd digwyddiadau ansicr yn y dyfodol yn digwydd sydd y tu hwnt i reolaeth lwyr yr Awdurdod. Mae rhwymedigaethau digwyddiadol yn codi hefyd mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond nad yw'n debygol y bydd all-lif adnoddau'n ofynnol neu na ellir mesur swm yr ymrwymiad yn ddibynadwy.

Ni chaiff rhwymedigaethau digwyddiadol eu cydnabod yn y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon pan fyddant yn faterol.

**Asedau Digwyddiadol**

Mae ased digwyddiadol yn codi os cafwyd digwyddiad sy'n rhoi ased posibl i'r Awdurdod, ac na fydd bodolaeth yr ased hwnnw'n cael ei chadarnhau nes y bydd neu na fydd digwyddiadau ansicr yn y dyfodol yn digwydd sydd y tu hwnt i reolaeth lwyr yr Awdurdod.

Ni chaiff asedau digwyddiadol eu cydnabod yn y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon os yw'n debygol y bydd buddion economaidd neu botensial o ran gwasanaeth yn dod i'r Awdurdod a'u bod yn faterol.

**Darpariaethau**

Caiff darpariaethau eu gwneud os yw'r ddau amod canlynol yn berthnasol:-

- bu digwyddiad sy'n gosod ymrwymiad cyfreithiol neu ffurfiannol ar yr Awdurdod, sydd yn ôl pob tebyg yn gofyn am setliad neu'n golygu bod angen trosglwyddo buddion economaidd neu botensial o ran gwasanaeth
- gellir amcangyfrif swm yr ymrwymiad yn ddibynadwy.

Caiff darpariaethau eu codi fel traul yn llinell y gwasanaeth priodol yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, pan gaiff ymrwymiad posibl mesuradwy ei nodi. Caiff gwerth y gost bosibl ei amcangyfrif ar ddyddiad y Fantolen, a chaiff ei gario fel rhwymedigaeth yn y Fantolen. Pan wneir taliad maes o law, caiff ei godi'n uniongyrchol ar y ddarpariaeth.

Caiff setliadau a amcangyfrifir a'u tebygolrwydd eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, ac os daw'n annhebygol y bydd y draul yn digwydd neu os disgwylir y bydd y swm yn llai, bydd y weithred o ostwng neu ddileu'r ddarpariaeth yn cael ei chredydu'n ôl i'r gwasanaeth y codwyd y swm arno'n wreiddiol. Os disgwylir y bydd rhywfaint neu'r cyfan o'r draul sy'n gysylltiedig â darpariaeth yn gallu cael ei adennill oddi wrth drydydd parti, megis yswiriwr, ni chaiff yr incwm cysylltiedig hwnnw ei gydnabod oni cheir sicrwydd i bob pwrpas y bydd yr incwm hwnnw'n cael ei dderbyn pan gaiff yr ymrwymiad ei dalu.

## Buddion cyflogeion

Caiff **buddion taladwy yn ystod cyflogaeth** eu derbyn gan gyflogeion cyfredol, ac maent yn rhai sydd i'w talu cyn pen 12 mis ar ôl diwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, gwyliau blynyddol gyda thâl ac absenoldeb salwch gyda thâl ar gyfer cyflogeion cyfredol, a chânt eu cydnabod yn draul i wasanaethau yn ystod y flwyddyn y mae cyflogeion yn gwasanaethu'r Awdurdod ynddi. Gwneir croniad ar gyfer cost unrhyw wyliau y mae cyflogeion wedi'u hennill ond nad ydynt wedi'u cymryd cyn diwedd y flwyddyn ac y gall cyflogeion eu cario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Caiff y croniad ei godi ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau, a chaiff ei wrthdroi wedyn drwy'r Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn fel bod buddion o ran gwyliau'n cael eu codi ar refeniw yn ystod y flwyddyn ariannol pan fo'r absenoldeb oherwydd gwyliau'n digwydd.

**Buddion terfynu** yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol, neu o ganlyniad i benderfyniad gan swyddog i dderbyn dileu ei swydd yn wirfoddol. Cânt eu codi ar sail croniadau ar linell y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, ar y dyddiad pan na all yr Awdurdod dynnu'r cynnig o fuddion yn ôl mwyach neu pan fo'r Awdurdod yn cydnabod costau ailstrwythuro, pa ddyddiad bynnag yw'r cynharaf.

Mae cyflogeion yn ennill **buddion ôl-gyflogaeth (pensiynau)** yn ystod eu bywyd gwaith yn gyfnewid am wasanaethau i'w cyflogwr. Mae cyflogeion yr Awdurdod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Sir Powys. Mae'r cynllun yn darparu buddion diffiniedig i aelodau (cyfandaliadau ymddeol a phensiynau) a enillir wrth i gyflogeion weithio i'r Awdurdod, a chaiff y cynllun ei ystyried yn gynllun buddion diffiniedig wrth gyfrifyddu.

Caiff rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn Powys y gellir eu priodoli i'r Awdurdod eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau – h.y. asesu'r taliadau a wneir yn y dyfodol mewn perthynas â'r buddion ymddeol y mae cyflogeion wedi'u hennill hyd hynny, ar sail rhagdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, cyfraddau trosiant cyflogeion ac ati, ac ar sail amcanestyniadau o enillion cyflogeion presennol.

Caiff rhwymedigaethau a ddefnyddir at ddibenion cyfrifyddu eu cyfrifo gan ddefnyddio cyfradd disgownt a bennir gan gyfeirio at elw o fondiau corfforaethol. Caiff asedau Cronfa Bensiwn Powys y gellir eu priodoli i'r Awdurdod eu cynnwys yn y Fantolen ar sail eu gwerth teg, fel a ganlyn:

- gwarannau a ddyfynnwyd – pris y cynnig cyfredol
- gwarannau nas dyfynnwyd – amcangyfrif proffesiynol
- gwarannau unedol – pris y cynnig cyfredol
- eiddo – gwerth ar y farchnad.

Caiff y newid yn y rhwymedigaeth net o ran pensiynau ei rannu'n elfennau fel a ganlyn:

<u>Cost gwasanaeth, sy'n cynnwys:</u>
cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni – wedi'i dyrannu yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau yr oedd y cyflogeion yn gweithio iddynt
cost gwasanaeth blaenorol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i ddiwygio neu gwtogi ar y cynllun, sy'n effeithio ar flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol – a gaiff ei debydu i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn rhan o'r Costau nas Dosbarthwyd

<u>Llog net</u> ar y rhwymedigaeth net o ran buddion diffiniedig (ased), h.y. y draul o ran llog net i'r Awdurdod – y newid yn ystod y cyfnod yn y rhwymedigaeth net o ran buddion diffiniedig (ased), sy'n codi o dreigl amser ac sy'n cael ei godi ar y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – caiff ei gyfrifo drwy gymhwyso'r gyfradd disgownt a ddefnyddiwyd i fesur yr ymrwymiad o ran buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod i'r rhwymedigaeth net o ran buddion diffiniedig (ased) ar ddechrau'r cyfnod – gan ystyried unrhyw newidiadau yn y rhwymedigaeth net o ran buddion diffiniedig (ased) yn ystod y cyfnod o ganlyniad i daliadau'n ymwneud â chyfraniadau a buddion.

<u>Ailfesuriadau gan gynnwys:</u>
yr elw o asedau'r cynllun – ac eithrio symiau sydd wedi'u cynnwys yn y llog net ar y rhwymedigaeth net o ran buddion diffiniedig (ased) – a godir ar y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall
enillion a cholledion actiwaraidd – newidiadau yn y rhwymedigaeth net o ran pensiynau, sy'n codi oherwydd nad yw digwyddiadau wedi cyd-daro â'r rhagdybiaethau a wnaed adeg y prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwarïaid wedi diweddaru eu rhagdybiaethau – a godir ar y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

<u>Cyfraniadau a dalwyd i Gronfa Bensiwn Powys</u> – arian a dalwyd ar ffurf cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn er mwyn clirio rhwymedigaethau; heb eu cyfrifyddu fel traul.

O ran buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn mynnu bod y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn ystod y flwyddyn yn cael ei godi ar falans y Gronfa Gyffredinol, yn hytrach na'r swm a gyfrifwyd yn ôl y safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae hynny'n golygu bod symiau o arian yn cael eu neilltuo i mewn ac allan o'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau er mwyn dileu'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion ymddeol, a rhoi debydau yn eu lle ar gyfer yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn ac i bensiynwyr ac ar gyfer unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond nad ydynt wedi'u talu ar ddiwedd y flwyddyn. Felly, mae'r balans negyddol sy'n codi ar y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau yn mesur yr effaith fanteisiol i'r Gronfa Gyffredinol o orfod rhoi cyfrif am fuddion ymddeol ar sail llif arian parod yn hytrach nag wrth i fuddion gael eu hennill gan gyflogeion.

**Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen**

Y digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau, ffafriol ac anffafriol, a geir rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad o Gyfrifon.
Gellir nodi dau fath o ddigwyddiadau:

- Y rhai sy'n rhoi tystiolaeth o'r amodau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o Gyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath
- Y rhai sy'n dangos amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o Gyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath ond, pe bai categori o ddigwyddiadau'n cael effaith faterol, caiff natur y digwyddiadau ac amcangyfrif o'u heffaith ariannol eu datgelu yn y nodiadau.

Ni chaiff digwyddiadau ar ôl dyddiad y dystysgrif archwilio eu hadlewyrchu yn y Datganiad o Gyfrifon.

**Arian Cyfred Tramor**

Os bydd yr Awdurdod wedi ymrwymo i drafodyn mewn arian cyfred tramor, caiff y trafodyn ei drosi i sterling ar sail y gyfradd gyfnewid a oedd yn berthnasol ar y dyddiad pan ddaeth y trafodyn yn weithredol. Os oes symiau mewn arian cyfred tramor yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn, cânt eu haildrosi ar sail y gyfradd gyfnewid ar y pryd ar 31 Mawrth. Caiff enillion neu golledion materol sy'n deillio o hynny eu cydnabod ar y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Grantiau a Chyfraniadau**

P'un a gânt eu talu ar gyfrif, drwy randaliadau neu fel ôl-ddyledion, cydnabyddir bod grantiau llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion gan drydydd partïon yn ddyledus i'r Awdurdod pan geir sicrwydd rhesymol y bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sy'n gysylltiedig â'r taliadau ac y bydd y grantiau neu'r cyfraniadau yn cael eu derbyn.

Ni chaiff symiau y cydnabyddir eu bod yn ddyledus i'r Awdurdod eu credydu i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr nes y ceir sicrwydd rhesymol bod yr amodau sy'n gysylltiedig â'r

grant neu'r cyfraniad wedi'u bodloni. Mae amodau o'r fath yn mynnu bod y buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial o ran gwasanaeth sy'n rhan o'r ased a gaffaelwyd gan ddefnyddio'r grant neu'r cyfraniad yn gorfod cael eu defnyddio gan y derbynnydd fel y nodwyd, neu fod y buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial o ran gwasanaeth yn gorfod cael eu dychwelyd i'r trosglwyddwr. Pan gaiff grantiau cyfalaf eu credydu i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi o falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Os nad yw'r grant wedi'i ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei nodi yn y Cyfrif Grantiau Cyfalaf Nas Defnyddiwyd. Os yw grant wedi'i ddefnyddio i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei nodi yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Bydd arian sydd wedi'i flaendalu ar ffurf grantiau a chyfraniadau, na fodlonwyd yr amodau ar ei gyfer, yn cael ei gynnwys yn y Fantolen fel Derbyniadau Ymlaen Llaw. Pan fydd yr amodau wedi'u bodloni, caiff y grant neu'r cyfraniad ei gredydu i linell y gwasanaeth perthnasol (grantiau refeniw a chyfraniadau priodoladwy) neu i Drethiant ac Incwm o Grantiau Amhenodol (grantiau refeniw nad ydynt wedi'u neilltuo a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**<u>Asedau Anniriaethol</u>**

Bydd gwariant ar asedau anariannol nad oes ganddynt sylwedd ffisegol ond sy'n cael eu rheoli gan yr Awdurdod o ganlyniad i ddigwyddiadau blaenorol (e.e. trwyddedau meddalwedd) yn cael ei gyfalafu pan ddisgwylir y bydd buddion economaidd yn y dyfodol neu botensial o ran gwasanaeth yn deillio o'r ased anniriaethol i'r Awdurdod.

Caiff asedau anniriaethol eu mesur i ddechrau ar sail eu cost, a chânt eu cario ar sail y gost wedi'i hamorteiddio. Caiff swm dibrisiadwy ased anniriaethol ei amorteiddio dros gyfnod ei oes ddefnyddiol ar linell(au) y gwasanaeth(au) perthnasol yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Rhoddir prawf amhariad ar ased pryd bynnag y ceir arwydd y gallai fod amhariad ar werth yr ased – bydd unrhyw golledion a gydnabyddir yn cael eu nodi ar linell(au) y gwasanaeth(au) perthnasol yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff unrhyw enillion neu golledion sy'n codi ar ôl gwaredu neu adael ased anniriaethol eu nodi yn y llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**<u>Rhestrau Eiddo</u>**

Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y cyfrifon ar sail cost. Mae hynny'n wahanol i'r gofynion yng Nghod Ymarfer CIPFA, sy'n mynnu bod stoc yn cael ei dangos ar sail ei chost wirioneddol neu'i gwerth realeiddiadwy net, pa bynnag un yw'r isaf. Ystyrir nad yw'r gwahaniaeth yn faterol.

**<u>Prydlesi</u>**

Caiff prydlesi eu hystyried yn brydlesi arian os yw telerau'r brydles yn trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a'r holl wobrwyon sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth ar yr eiddo, y peiriannau neu'r cyfarpar o'r prydlesydd i ddeiliad y brydles ac os yw gwerth yr eiddo, y peiriant neu'r cyfarpar a brydleswyd yn uwch na'r trothwy de minimis o £10,000. Caiff unrhyw brydlesi eraill eu hystyried yn brydlesi gweithredu.

Caiff taliadau prydlesi eu codi'n llawn yn unol â'r dyddiad y maent yn daladwy ar sail linol, gan sicrhau tâl blynyddol cyfartal i gyfrifon refeniw'r gwasanaethau drwy gydol oes y brydles.

Mae'r Awdurdod yn rhentu sawl eiddo er mwyn cynnal ei wasanaethau, a rhoddir cyfrif am gostau rhentu ar sail linol yn y cyfnodau rhentu perthnasol. Mae'r Awdurdod hefyd yn gosod ar rent sawl eiddo y mae'n berchen arnynt, nad ydynt yn ofynnol i ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol. Caiff yr eiddo dan sylw ei ystyried yn asedau sefydlog yn y Fantolen, a rhoddir cyfrif am incwm sy'n ymwneud â'r eiddo ar sail linol yn y cyfnodau rhentu perthnasol.

**Gorbenion a Gwasanaethau Cymorth**

Yn unol â Chod Ymarfer cyfredol CIPFA, rhoddir cyfrif am gost gwasanaethau cymorth yn yr un fformat ag a gyflwynir i Aelodau'r Awdurdod yn y cyfrifon rheoli. Caiff gwasanaethau cymorth a chostau rheoli adrannol eu dangos yn yr adran y cânt eu rheoli dani.

**Addasiadau ar gyfer Cyfnodau Blaenorol, Newidiadau mewn Polisïau Cyfrifyddu ac Amcangyfrifon a Gwallau**

Gall addasiadau ar gyfer cyfnodau blaenorol godi oherwydd newid mewn polisïau cyfrifyddu neu er mwyn cywiro gwall materol. Os gwneir newid, caiff ei roi ar waith yn ôl-weithredol (oni nodir fel arall) drwy addasu balansiau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi'i roi ar waith erioed. Caiff gwallau materol a gaiff eu darganfod mewn ffigurau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol drwy ddiwygio balansiau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

Rhoddir cyfrif am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhag-weithredol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a blynyddoedd yn y dyfodol y bydd y newid yn effeithio arnynt, ac ni fyddant yn arwain at addasiad ar gyfer cyfnod blaenorol.

**Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar**

Caiff asedau sydd â sylwedd ffisegol ac a ddelir i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w gosod ar rent i eraill, neu i'w defnyddio at ddibenion gweinyddol ac y mae disgwyl iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol eu hystyried yn Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar.

**Cydnabod**

Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar ei gyfalafu ar sail croniadau, ar yr amod ei bod yn debygol y bydd y buddion economaidd neu'r potensial o ran gwasanaeth yn y dyfodol, sy'n gysylltiedig â'r eitem, yn dod i'r Awdurdod ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Bydd gwariant sy'n cynnal potensial ased i gyflwyno buddion economaidd neu botensial o ran gwasanaeth yn y dyfodol ond nad yw'n ychwanegu at y potensial hwnnw (h.y. gwaith atgyweirio a chynnal a chadw) yn cael ei godi fel traul pan gaiff yr arian ei wario. Mae'r Awdurdod wedi pennu lefel isaf o £10,000 ar gyfer cyfalafu gwariant, ac eithrio tir ac adeiladau a gaiff eu cyfalafu bob amser. Caiff gwariant islaw'r lefel isaf ei drin fel refeniw.

**Mesur**
Caiff asedau eu mesur i ddechrau ar sail cost, sy'n cynnwys y pris prynu ac unrhyw gostau y gellir eu priodoli i'r gwaith o ddod â'r ased i'r lleoliad a sicrhau ei fod yn y cyflwr angenrheidiol i allu gweithredu yn y modd a fwriadwyd gan y tîm rheoli.

Yna, caiff asedau eu cario yn y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:
Seilwaith, asedau cymunedol ac asedau sy'n cael eu hadeiladu: cost hanesyddol wedi'i dibrisio.
Yr holl asedau eraill: gwerth teg, sef y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased ar sail y defnydd presennol a wneir ohono (gwerth defnydd presennol).

Os nad oes unrhyw dystiolaeth yn y farchnad i ddangos gwerth teg, oherwydd natur arbenigol ased, caiff y gost amnewid wedi'i dibrisio ei defnyddio i amcangyfrif gwerth teg. Yn achos asedau heblaw eiddo, sydd ag oes ddefnyddiol fer neu sydd â gwerth isel (neu'r ddau), caiff cost hanesyddol wedi'i dibrisio ei defnyddio yn lle gwerth teg. Caiff asedau sydd wedi'u cynnwys ar sail gwerth teg yn y Fantolen eu hailbrisio'n ddigon rheolaidd, ac o leiaf bob pum mlynedd, i sicrhau nad yw eu swm cario'n wahanol mewn modd materol i'w gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd unrhyw gynnydd mewn prisiadau'n arwain at gredydau i'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio er mwyn cydnabod enillion nad ydynt wedi'u realeiddio.

Os nodir unrhyw ostyngiadau mewn gwerth, rhoddir cyfrif amdanynt fel a ganlyn:

- os oes balans o enillion ailbrisio ar gyfer yr ased yn y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio, caiff swm cario'r ased ei ddibrisio yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig), neu
- os nad oes unrhyw falans yn y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio neu os nad oes balans digonol, caiff swm cario'r ased ei ddibrisio yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth(au) perthnasol yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio yn cynnwys enillion ailbrisio sydd wedi'u cydnabod ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef y dyddiad y cafodd y Gronfa ei rhoi ar waith yn ffurfiol. Mae enillion a gododd cyn y dyddiad hwnnw wedi'u cyfuno yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

**Amhariad**
Caiff asedau eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn i weld a oes unrhyw arwydd y gallai ased fod wedi dioddef amhariad. Os oes arwyddion o'r fath yn bodoli ac os amcangyfrifir bod unrhyw wahaniaethau posibl yn rhai materol, caiff swm adferadwy'r ased ei amcangyfrif ac, os yw'n llai na swm cario'r ased, bydd unrhyw golled oherwydd amhariad yn cael ei chydnabod ar gyfer y diffyg.
Os nodir colledion oherwydd amhariad, rhoddir cyfrif amdanynt fel a ganlyn:

- os oes balans o enillion ailbrisio ar gyfer yr ased yn y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio, caiff swm cario'r ased ei ddibrisio yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig)
- os nad oes unrhyw falans yn y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio neu os nad oes balans digonol, caiff swm cario'r ased ei ddibrisio yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth(au) perthnasol yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
- os caiff colled oherwydd amhariad ei gwrthdroi wedyn, caiff y gwrthdroad ei gredydu i linell y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i addasu ar gyfer y dibrisiant y byddid wedi codi amdano pe na bai'r golled wedi'i chydnabod.

**Dibrisiant**

Darperir ar gyfer dibrisiant ar yr holl asedau o ran Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar trwy ddyrannu eu symiau dibrisiadwy'n systematig dros eu hoes ddefnyddiol. Caiff asedau nad oes ganddynt oes ddefnyddiol gyfyngedig y gellir ei phennu (h.y. tir rhydd-ddaliadol a rhai Asedau Cymunedol) ac asedau nad ydynt ar gael eto i'w defnyddio (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu) eu heithrio o hyn. Caiff dibrisiant ei gyfrifo ar y seiliau canlynol:

- anheddau ac adeiladau eraill – dyraniad llinol dros oes ddefnyddiol yr eiddo yn ôl amcangyfrif y prisiwr
- cerbydau, peiriannau, dodrefn a chyfarpar – dyraniad llinol dros oes ddefnyddiol yr ased yn ôl cyngor gan swyddog cymwys
- seilwaith (hawliau tramwy, llwybrau a strwythurau cysylltiedig) – dyraniad llinol dros oes ddefnyddiol yr ased yn ôl cyngor gan swyddog cymwys

Os nad oes cyngor penodol ar gael, dyma'r amcangyfrif a ddefnyddir o oes asedau:

| | |
|---|---|
| Cerbydau a Chyfarpar Arall | 5 mlynedd |
| Cyfarpar TG | 3 blynedd |
| Asedau Cymunedol a Seilwaith | 20 mlynedd |
| Asedau Anniriaethol | 3 blynedd |

Os yw ased o ran Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar yn cynnwys cydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn perthynas â chyfanswm cost yr eitem, caiff y cydrannau eu dibrisio ar wahân.

Caiff enillion ailbrisio eu dibrisio hefyd. Caiff swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng y dibrisiant mewn gwerth cyfredol, a godir ar asedau, a'r dibrisiant y byddid wedi gallu codi amdano ar sail eu cost hanesyddol ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

**Gwarediadau ac Asedau Anghyfredol a Ddelir i'w Gwerthu**

Pan ddaw'n debygol y bydd swm cario ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy drafodyn gwerthu yn hytrach na thrwy barhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu'n Ased a Ddelir i'w Werthu. Caiff yr ased ei ailbrisio'n union cyn iddo gael ei ailddosbarthu, a'i gario wedyn ar sail y swm hwnnw neu'r gwerth teg namyn costau gwerthu, pa bynnag un yw'r isaf. Os bydd gostyngiad wedyn yn y gwerth teg namyn costau gwerthu, caiff y golled ei symud i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Ni chaiff enillion o ran gwerth teg eu cydnabod ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabuwyd o'r blaen yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau. Ni chodir am ddibrisiant ar Asedau a Ddelir i'w Gwerthu.

Ni fydd asedau sydd i'w gadael neu'u sgrapio yn cael eu hailddosbarthu'n Asedau a Ddelir i'w Gwerthu. Pan gaiff ased ei waredu neu'i ddatgomisiynu, bydd swm cario'r ased yn y Fantolen (boed yn Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar neu'n Asedau a Ddelir i'w Gwerthu) yn cael ei ddileu i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn rhan o'r enillion neu'r colledion ar warediadau. Caiff unrhyw dderbyniadau o warediadau (os oes rhai o gwbl) eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, hefyd yn rhan o'r enillion neu'r colledion ar warediadau (h.y. cânt eu netio yn erbyn gwerth cario'r ased adeg ei

waredu). Bydd unrhyw enillion ailbrisio a gronnwyd ar gyfer yr ased yn y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Caiff symiau o fwy na £10,000 a dderbynnir am waredu eu hystyried yn dderbyniadau cyfalaf. Caiff derbyniadau eu neilltuo i'r Gronfa Wrth Gefn o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Gan fod yr Awdurdod yn ddiddyled, gellir defnyddio'r cyfan o unrhyw dderbyniadau o'r fath i ariannu gwariant cyfalaf newydd.

Nid yw'r gwerth sydd wedi'i ddileu ar warediadau'n cael ei godi yn erbyn trethiant, oherwydd darperir yn llawn ar gyfer cost asedau sefydlog dan drefniadau ar wahân ar gyfer ariannu cyfalaf. Caiff y symiau eu neilltuo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

**Asedau Dros Ben**

Pan na fydd ased yn cael ei ddefnyddio mwyach at ddibenion gweithredol ond nad yw'n cael ei farchnata'n weithredol nac yn cael ei adael na'i sgrapio, caiff ei ystyried yn ased dros ben. Caiff asedau dros ben eu prisio ar sail gwerth teg (h.y. y pris y byddai modd ei gael mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranogwyr mewn marchnad ar y dyddiad mesur).

## Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r Awdurdod yn rhoi symiau penodol o'r neilltu ar ffurf cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy at ddibenion polisi yn y dyfodol neu er mwyn darparu ar gyfer digwyddiadau annisgwyl. Caiff cronfeydd wrth gefn eu creu drwy neilltuo symiau yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan fydd gwariant sydd i'w ariannu o gronfa wrth gefn yn digwydd, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno yn erbyn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff y gronfa wrth gefn ei neilltuo yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Caiff cronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy eu cynnal er mwyn rheoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau anghyfredol, buddion ymddeol a buddion cyflogeion ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy ar gyfer yr Awdurdod.

## Treth ar Werth

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi heb gynnwys TAW. Os na ellir adennill TAW ar eitem o wariant, caiff y TAW ei chodi ar y gwasanaeth neu'r prosiect cyfalaf perthnasol.

Y PRIF DDATGANIADAU CYFRIFYDDU

**Nodyn esboniadol ynghylch y wybodaeth sydd yn y datganiadau ariannol craidd**

Mae’r Datganiad o Gyfrifon yn egluro manylion incwm a gwariant yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 a’i Fantolen ar 31 Mawrth 2023. Mae’r pedwar datganiad ariannol craidd yn adlewyrchu gweithgareddau’r Parc Cenedlaethol gan gynnwys y prosiectau penodol yr ymgymerwyd â nhw, ac maent fel a ganlyn:

Mae’r **Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** yn dangos y gost gyfrifyddu yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na’r swm sydd i’w ariannu o drethiant. Mae hefyd yn dwyn ynghyd holl enillion a cholledion yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn.

Mae’r **Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn** yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn y mae’r Awdurdod yn eu dal, wedi’u dadansoddi yn gronfeydd ‘defnyddiadwy’ ac yn gronfeydd ‘annefnyddiadwy’. Mae’r datganiad yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau’r Awdurdod a sut y caiff y costau hynny eu hariannu o’r amryw gronfeydd wrth gefn a gaiff eu dal.

Mae’r **Fantolen** yn dangos gwerth yr asedau a’r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Parc Cenedlaethol. Caiff asedau net y Parc Cenedlaethol (yr asedau namyn y rhwymedigaethau) eu hadlewyrchu gan y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac annefnyddiadwy a ddelir gan y Parc Cenedlaethol. Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yw’r rheini y caiff yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn ac yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau statudol ar y defnydd ohonynt. Nid yw cronfeydd annefnyddiadwy ar gael i ariannu gwasanaethau, ac maent yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy’n dal enillion a cholledion nad ydynt wedi’u realeiddio (er enghraifft, y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio), lle na fyddai symiau ar gael i ddarparu gwasanaethau oni bai bod yr asedau’n cael eu gwerthu, a chronfeydd wrth gefn sydd â gwahaniaethau amseru a ddangosir yn y llinell ‘Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a’r sail ariannu dan reoliadau’.

Mae’r **Datganiad o Lif Arian Parod** yn dangos y newidiadau mewn arian parod ac mewn elfennau sy’n cyfateb i arian parod y Parc Cenedlaethol yn ystod y cyfnod yr adroddir yn ei gylch. Mae’r datganiad yn dangos sut y mae’r Awdurdod yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod ac elfennau sy’n cyfateb i arian parod, drwy ddosbarthu llifau arian parod yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian parod net sy’n codi o weithgareddau gweithredu’n ddangosydd allweddol o’r graddau y mae gweithgareddau gweithredu’r Awdurdod yn cael eu hariannu gan grant ac ardollau neu gan dderbynwyr gwasanaethau a ddarperir gan y Parc Cenedlaethol. Mae gweithgareddau buddsoddi’n dangos y graddau y mae all-lifau arian parod wedi’u darparu ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu i’r modd y bydd yr Awdurdod yn darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae llifau arian parod sy’n codi o weithgareddau ariannu’n ddefnyddiol o ran rhagweld hawliadau am lifau arian parod yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) i’r Awdurdod.

Mae’r nodiadau ar dudalennau (12 – 21) – Polisïau Cyfrifyddu – a thudalennau (28 – 63) yn rhan o’r Datganiad o Gyfrifon ac maent yn darparu mwy o fanylion am yr eitemau sydd yn y datganiadau.

# Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
# ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | 2022/23 | 2022/23 | 2022/23 | 2021/22 | 2021/22 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwariant Gros | Incwm Gros | Net | Gwariant Gros | Incwm Gros | Net |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Swyddfa'r Prif Weithredwr a Chyfathrebu** | 545 | (107) | 438 | 470 | (26) | 444 |
| **Adran y Swyddog Monitro a'r Cyfreithiwr** | 513 | (5) | 508 | 491 | (15) | 476 |
| **Natur a Newid Hinsawdd** | 2,380 | (837) | 1,543 | 2,317 | (975) | 1,342 |
| **Cynllunio a Lle** | 3,488 | (1,146) | 2,342 | 3,347 | (1,240) | 2,107 |
| **Adran y Rheolwr Rhaglenni** | 717 | (2) | 715 | 744 | (2) | 742 |
| | | | | | | |
| **Cost Gwasanaethau** | **7,643** | **(2,097)** | **5,546** | **7,369** | **(2,258)** | **5,111** |
| | | | | | | |
| **Gwariant Gweithredu Arall (Nodyn 6)** | | | 40 | | | 30 |
| **Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi (Nodyn 7)** | | | 242 | | | 313 |
| **Trethiant ac Incwm o Grantiau Amhenodol (Nodyn 8)** | | | (5,097) | | | (4,841) |
| **Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | | **731** | | | **613** |
| **Gwarged neu ddiffyg ar ôl ailbrisio Asedau Sefydlog** | | | 35 | | | |
| **(Enillion)/Colledion Actiwaraidd ar Asedau/Rhwymedigaethau Pensiwn (Nodyn 30)** | | | (11,830) | | | (5,270) |
| **(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | **(11,795)** | | | **(5,270)** |
| **Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr** | | | **(11,064)** | | | **(4,657)** |

# Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | **Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol** | **Cronfeydd Wrth Gefn Wedi' u Clustnodi** | **Cyfrif Grantiau Cyfalaf Nas Defnyddiwyd** | **Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf** | **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy** | **Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy** | **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **1,533** | **1,420** | **908** | **24** | **3,885** | **-3,033** | **852** |
| Symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2022/23 | | | | | | | |
| Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (731) | | | | (731) | 11,795 | 11,064 |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail ariannu dan reoliadau (Nodyn 11) | 595 | | (216) | (24) | 355 | (355) | |
| (Gostyngiad)/Cynnydd net cyn trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi | (136) | | (216) | (24) | (376) | 11440 | 11064 |
| Trosglwyddiadau o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi (Nodyn 12) | (221) | 192 | | | (29) | 31 | 2 |
| (Gostyngiad)/Cynnydd yn 2022/23 | (357) | 192 | (216) | (24) | (405) | 11471 | 11066 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **1,176** | **1,612** | **692** | **0** | **3,480** | **8,438** | **11,918** |

## Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

| | Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol | Cronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi | Cyfrif Grantiau Cyfalaf Nas Defnyddiwyd | Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy | Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **1,190** | **1,556** | **1,175** | **129** | **4,050** | **(7,855)** | **(3,805)** |
| **Symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2021/22** | | | | | | | |
| Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (613) | | | | (613) | 5,270 | 4,657 |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail ariannu dan reoliadau (Nodyn 11) | 820 | | (267) | (105) | 448 | (448) | |
| (Gostyngiad)/Cynnydd net cyn trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi | 207 | | (267) | (105) | (165) | 4,822 | 4,657 |
| Trosglwyddiadau o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi (Nodyn 12) | 136 | (136) | | | | | |
| (Gostyngiad)/Cynnydd yn 2021/22 | 343 | (136) | (267) | (105) | (165) | 4,822 | 4,657 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **1,533** | **1,420** | **908** | **24** | **3,885** | **(3,033)** | **852** |

# Y Fantolen ar 31 Mawrth 2023

| | 2022/23 £000 | 2021/22 £000 |
|---|---:|---:|
| Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar (Nodyn 14) | 9,112 | 8,392 |
| Asedau Anniriaethol (Nodyn 15) | 31 | 24 |
| **CYFANSWM ASEDAU HIRDYMOR** | **9,143** | **8,416** |
| | | |
| Rhestrau Eiddo (Nodyn 18) | 70 | 64 |
| Dyledwyr Byrdymor (Nodyn 19) | 1,393 | 798 |
| Arian Parod ac Elfennau sy'n Cyfateb i Arian Parod (Nodyn 20) | 2,994 | 3,959 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | **4,457** | **4,821** |
| | | |
| Credydwyr Byrdymor (Nodyn 21) | (1,109) | (1,007) |
| **RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | **(1,109)** | **(1,007)** |
| | | |
| | | |
| Rhwymedigaeth – Cynlluniau Pensiwn Buddion Diffiniedig (Nodyn 30) | (573) | (11,378) |
| **RHWYMEDIGAETHAU HIRDYMOR** | **(573)** | **(11,378)** |
| **ASEDAU NET** | **11,918** | **852** |
| | | |
| Cyfrif Grantiau Cyfalaf Nas Defnyddiwyd | (692) | (908) |
| Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy Eraill | (2,788) | (2,977) |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy (Nodyn 12) | **(3480)** | **(3,885)** |
| | | |
| Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy (Nodyn 13) | (8,438) | 3,033 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN** | **(11,918)** | **(852)** |



**Swyddog Adran 151** **Dyddiad:** **14/2/2024**

## Datganiad o Lif Arian Parod

| | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|
| (Gwarged) neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau | 731 | 613 |
| Addasiadau i'r gwarged neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau, ar gyfer symudiadau nad ydynt yn rhai arian parod (Nodyn 22) | 32 | (1,034) |
| Addasiadau ar gyfer eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y gwarged neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi ac ariannu | - | - |
| Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu | 32 | (1,034) |
| | | |
| Gweithgareddau buddsoddi (Nodyn 23) | 202 | 354 |
| | | |
| Gweithgareddau ariannu (Nodyn 24) | - | - |
| | | |
| **Cynnydd neu ostyngiad net mewn arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod** | **965** | **(67)** |
| | | |
| Arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd | 3,959 | 3,892 |
| | | |
| Arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd (Nodyn 20) | **2,994** | **3,959** |

# Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

**NODYN 1: Dadansoddiad o Wariant a Chyllid**

Amcan y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid yw dangos sut y mae cyllid a oedd ar gael i'r Parc Cenedlaethol (e.e. o Grant Craidd Llywodraeth Cymru, ardollau) ar gyfer y flwyddyn wedi'i ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaethau, o gymharu â'r adnoddau a ddefnyddiwyd neu a enillwyd gan awdurdodau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid hefyd yn dangos sut y caiff y gwariant hwn ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau rhwng Cyfarwyddiaethau'r Parc Cenedlaethol. Caiff Incwm a Gwariant y rhoddir cyfrif amdanynt dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol eu cyflwyno'n llawnach yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| | **Gwariant Net y Gellir ei Godi ar y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol**<br>**2022/23**<br>£000 | **Addasiadau rhwng y Sail Ariannu a'r Sail Gyfrifyddu**<br>**2022/23**<br>£000 | **Gwariant Net yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**<br>**2022/23**<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Swyddfa'r Prif Weithredwr a Chyfathrebu | 397 | (41) | **438** |
| Adran y Swyddog Monitro a'r Cyfreithiwr | 454 | (54) | **508** |
| Natur a Newid Hinsawdd | 1,126 | (417) | **1,543** |
| Cynllunio a Lle | 1,867 | (475) | **2,342** |
| Adran y Rheolwr Rhaglenni | 598 | (117) | **715** |
| **Cost Net Gwasanaethau** | **4,442** | **(1,104)** | **5,546** |
| **Incwm a Gwariant Arall** | **(4,306)** | **509** | **(4,815)** |
| **Diffyg/(Gwarged)** | **136** | **(595)** | **731** |
| **Balans Agoriadol Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol a Chronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi:** | | | |
| Balans Agoriadol | 2,953 | | |
| Gwarged/(Diffyg) Refeniw | (136) | | |
| Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi (Cymynroddion) | (29) | | |
| **Balans Terfynol ar y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Refeniw** | **2,788** | | |

| | Gwariant Net y Gellir ei Godi ar y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol<br><br>2021/22<br>£000 | Addasiadau rhwng y Sail Ariannu a'r Sail Gyfrifyddu<br><br>2021/22<br>£000 | Gwariant Net yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr<br>2021/22<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Swyddfa'r Prif Weithredwr a Chyfathrebu | 400 | (44) | **444** |
| Adran y Swyddog Monitro a'r Cyfreithiwr | 423 | (53) | **476** |
| Natur a Newid Hinsawdd | 970 | (372) | **1,342** |
| Cynllunio a Lle | 1,625 | (482) | **2,107** |
| Adran y Rheolwr Rhaglenni | 614 | (128) | **742** |
| **Cost Net Gwasanaethau** | **4,032** | **(1,079)** | **5,111** |
| **Incwm a Gwariant Arall** | **(4,239)** | **259** | **(4,498)** |
| **Diffyg/(Gwarged)** | **(207)** | **(820)** | **613** |
| **Balans Agoriadol Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol a Chronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi:** | | | |
| Balans Agoriadol | 2,746 | | |
| Gwarged/(Diffyg) Refeniw | 207 | | |
| **Balans Terfynol ar y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Refeniw** | **2,953** | | |

**Addasiadau rhwng y Sail Ariannu a’r Sail Gyfrifyddu**

Mae’r canlynol yn esbonio’r prif addasiadau o’r Gwariant Net y Gellir ei Godi ar Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol a Chronfeydd Wrth Gefn wedi’u Clustnodi yr Awdurdod er mwyn cyrraedd y symiau sydd yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae addasiadau o ddibenion Cyfalaf yn cynnwys (os ydynt wedi digwydd yn ystod y flwyddyn) dibrisiant, amhariadau ac enillion a cholledion ailbrisio. Mae hefyd yn addasu ar gyfer cyfraniadau refeniw i wariant cyfalaf na ellir eu codi ar y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

Mae’r Addasiadau Pensiwn yn dangos ble mae tynnu cyfraniadau pensiwn ymaith a chyflwyno costau Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 yn eu lle wedi effeithio ar gostau.

Mae addasiadau eraill yn eitemau na ellir eu dyrannu i addasiadau Cyfalaf nac addasiadau Pensiwn.

| | **Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf 2022/23** | **Newid Net ar gyfer yr Addasiadau Pensiwn 2022/23** | **Addasiadau Eraill 2022/23** | **Cyfanswm yr Addasiadau 2022/23** |
|---|---|---|---|---|
| **Addasiadau rhwng y Sail Ariannu a’r Sail Gyfrifyddu** | £000 | £000 | £000 | £000 |
| | | | | |
| Swyddfa’r Prif Weithredwr a Chyfathrebu | 0 | (48) | 7 | **(41)** |
| Adran y Swyddog Monitro a’r Cyfreithiwr | 0 | (46) | (8) | **(54)** |
| Natur a Newid Hinsawdd | (200) | (209) | (8) | **(417)** |
| Cynllunio a Lle | (113) | (320) | (42) | **(475)** |
| Adran y Rheolwr Rhaglenni | (45) | (61) | (11) | **(117)** |
| **Cost Gwasanaethau** | **(358)** | **(684)** | **(62)** | **(1,104)** |
| Incwm a Gwariant Arall | **918** | **(340)** | **(69)** | **509** |
| **Gwahaniaeth rhwng gwarged neu ddiffyg y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol a gwarged neu ddiffyg y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar ddarparu gwasanaethau** | **560** | **(1,024)** | **(131)** | **(595)** |

| | Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf<br><br>2021/22 | Newid Net ar gyfer yr Addasiadau Pensiwn<br>2021/22 | Addasiadau Eraill<br><br>2021/22 | Cyfanswm yr Addasiadau<br><br>2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| **Addasiadau rhwng y Sail Ariannu a'r Sail Gyfrifyddu** | £000 | £000 | £000 | £000 |
| | | | | |
| Swyddfa'r Prif Weithredwr a Chyfathrebu | 0 | (44) | 0 | **(44)** |
| Adran y Swyddog Monitro a'r Cyfreithiwr | 0 | (53) | 0 | **(53)** |
| Natur a Newid Hinsawdd | (160) | (212) | 0 | **(372)** |
| Cynllunio a Lle | (112) | (370) | 0 | **(482)** |
| Adran y Rheolwr Rhaglenni | (45) | (83) | 0 | **(128)** |
| **Cost Gwasanaethau** | **(317)** | **(762)** | **0** | **(1,079)** |
| Incwm a Gwariant Arall | **660** | **(350)** | **(51)** | **259** |
| **Gwahaniaeth rhwng gwarged neu ddiffyg y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol a gwarged neu ddiffyg y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar ddarparu gwasanaethau** | **343** | **(1,112)** | **(51)** | **(820)** |

**NODYN 2: Safonau Cyfrifyddu a Gyhoeddwyd ond Nas Mabwysiadwyd**
Mae Cod 2022/23 yn mynnu bod yr Awdurdod yn datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag effaith newid o ran cyfrifyddu, a fydd yn ofynnol gan safonau cyfrifyddu newydd sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto gan y Cod. Mae diwygiadau i God Ymarfer 2022/23 ar Gyfrifyddu ar gyfer Awdurdodau Lleol wedi'u hadolygu, ac ystyrir eu bod yn amherthnasol neu'n anfaterol i'r Awdurdod.

Roedd Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol safonol newydd 16 – Prydlesi, sy'n debygol o effeithio ar y modd y mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am ei brydlesi yn y datganiadau ariannol, i fod i gael ei chyflwyno yn ystod 2022/23. Mae'r dyddiad gweithredu wedi'i ohirio, a chaiff y safon ei chynnig ar hyn o bryd fel safon y gellir ei mabwysiadu'n wirfoddol. Nid yw'r Awdurdod wedi mabwysiadu'n wirfoddol y safon newydd a fydd yn dod yn orfodol yn 2024/25.

**NODYN 3: Barn Allweddol wrth Weithredu Polisïau Cyfrifyddu**

Wrth weithredu Polisïau Cyfrifyddu'r Awdurdod, daethpwyd i ambell farn lle'r oedd ansicrwydd ynghylch digwyddiadau yn y dyfodol. Dyma'r achosion yn y Datganiad o Gyfrifon lle daethpwyd i farn allweddol:

Ceir ansicrwydd ynghylch lefelau cyllid yn y dyfodol ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru y tu hwnt i flwyddyn ariannol 2023/24. Fodd bynnag, rhagdybiwyd nad yw'r ansicrwydd hwnnw'n ddigonol eto i awgrymu y gellid amharu ar asedau'r Awdurdod oherwydd angen i gau cyfleusterau a lleihau lefelau darparu gwasanaethau.

**NODYN 4: Rhagdybiaethau a Wnaed ynghylch y Dyfodol a Ffynonellau Pwysig Eraill o Ansicrwydd wrth Amcangyfrif**

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys ffigurau a amcangyfrifwyd sydd wedi'u seilio ar ragdybiaethau a wnaed gan yr Awdurdod ynghylch y dyfodol, neu sy'n ansicr fel arall. Gwneir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu balansiau gyda sicrwydd, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon. Cafodd tir ac adeiladau'r Awdurdod eu prisio bedair blynedd yn ôl, a bwriedir eu hailbrisio yn 2023/24. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud newidiadau materol i werthoedd tir ac adeiladau gweithredol yn sgil y pandemig ac ansefydlogrwydd cyffredinol cyfraddau llog yn y DU, sydd yn ei dro'n gallu peri i brisiadau eiddo fod yn anwadal.

| **Eitem** | **Ansicrwydd** | **Effaith os yw'r canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i'r rhagdybiaethau** |
|---|---|---|
| Ased/Rhwymedigaeth o ran Pensiynau | Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau'n dibynnu ar sawl barn gymhleth ynghylch yr elw o fondiau corfforaethol, y gyfradd disgownt a ddefnyddir, rhagamcanion o gyfraddau'r cynnydd a ragwelir mewn cyflogau, cyfraddau marwolaethau a'r elw a ddisgwylir o asedau'r Gronfa Bensiwn. Mae asesiad o'r rhwymedigaeth o ran pensiynau wedi'i ddarparu gan AON Solutions UK Limited sydd hefyd yn rhoi cyngor actiwaraidd ynghylch y rhagdybiaethau sydd i'w defnyddio a'u heffaith. | Gall newidiadau mewn rhagdybiaethau ryngweithio mewn sawl ffordd, a gallant gael effaith fawr ar y rhwymedigaeth net o ran pensiynau yn y datganiadau ariannol. Gwyddys bod y safon gyfrifyddu sy'n llywodraethu'r sail gyfrifyddu ar gyfer costau'r Cynllun Pensiwn yn achosi anwadalwch mewn amcangyfrifon o asedau a rhwymedigaethau rhwng blynyddoedd, gan beri newidiadau mawr yng nghyfanswm y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ac yn y ffigur ar gyfer asedau net yn y fantolen. |
| Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar | Caiff asedau eu dibrisio dros oes ddefnyddiol sy'n dibynnu ar ragdybiaethau ynghylch lefel y | Bydd cwtogi oes ddefnyddiol neu nodi amhariad yn cynyddu'r swm a godir ar Gost Gwasanaethau yn y |

| | | |
|---|---|---|
| | gwaith atgyweirio a'r gwaith cynnal a chadw a wneir ar asedau unigol. Oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol, nid yw'n sicr a fydd yr Awdurdod yn gallu cynnal ei wariant presennol ar waith atgyweirio a chynnal a chadw, sy'n codi amheuaeth ynghylch yr oes ddefnyddiol a bennwyd ar gyfer asedau. Mae gwerthoedd marchnadoedd sy'n dibynnu'n sylweddol ar ffactorau economaidd y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod yn effeithio ar brisiadau a briodolwyd i Eiddo gan briswyr yr Awdurdod. | Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, ac yn lleihau gwerth asedau yn y Fantolen.<br><br>Gall newidiadau yng ngwerth asedau ar y farchnad arwain at danbrisio neu orbrisio tir ac adeiladau'r Awdurdod. O ganlyniad i effaith economaidd Covid-19, y ffaith bod y DU wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, ac anwadalwch cyfraddau llog, ceir llawer mwy o ansicrwydd yn 2022/23 a 2023/24 ynghylch gwerthoedd eiddo. Gallai'r effeithiau hyn fod yn rhai materol, ond nid oes modd eu mesur eto. |

**NODYN 5: Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen**

Gwnaeth y Prif Swyddog Ariannol awdurdodi cyhoeddi'r Datganiad o Gyfrifon ar 14 Chwefror 2024. Os oedd digwyddiadau cyn y dyddiad hwnnw'n darparu gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2023, mae'r ffigurau yn y Datganiadau a'r nodiadau wedi'u haddasu ym mhob agwedd faterol er mwyn adlewyrchu effaith y wybodaeth honno.

**NODYN 6: Incwm a Gwariant Gweithredu Arall**

| | **2022/23 £000** | **2021/22 £000** |
|---|---|---|
| Costau Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn | 40 | 30 |
| Cyfanswm | 40 | 30 |

**NODYN 7: Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi**

| | **2022/23 £000** | **2021/22 £000** |
|---|---|---|
| Llog ar rwymedigaeth net y Cynllun Pensiwn o ran buddion diffiniedig | 300 | 320 |
| Llog a dderbyniwyd ac incwm tebyg | (58) | (7) |
| Cyfanswm | 242 | 313 |

**NODYN 8: Trethiant ac Incwm o Grantiau Amhenodol** (gweler hefyd Nodyn 9 – Cyfanswm Incwm o Grantiau)

| | 2022/23<br>£000 | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| **Ardollau ar Awdurdodau Lleol Cyfansoddol** | | | | |
| Cyngor Sir Powys | 609 | | 609 | |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 152 | | 152 | |
| Cyngor Sir Fynwy | 116 | | 116 | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 53 | | 53 | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 41 | | 41 | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 32 | | 32 | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 32 | | 32 | |
| **Is-gyfanswm** | | 1,035 | | 1,035 |
| Incwm o Grantiau Amhenodol – Grant y Parc Cenedlaethol | | 3,144 | | 3,179 |
| Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | | 918 | | 627 |
| **Cyfanswm** | | **5,097** | | **4,841** |

**NODYN 9: Incwm o Grantiau**

Credydodd yr Awdurdod y grantiau, y cyfraniadau a'r rhoddion canlynol i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn.

| | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|
| **Credydwyd i Drethiant ac Incwm o Grantiau Amhenodol** | | |
| Grant y Parc Cenedlaethol | 3,144 | 3,179 |
| Grant Cyfalaf y Parc Cenedlaethol wedi'i gynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant | 918 | 627 |
| Ardollau – Cyngor Sir Powys | 609 | 609 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 152 | 152 |
| Cyngor Sir Fynwy | 116 | 116 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 53 | 53 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 41 | 41 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 32 | 32 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 32 | 32 |
| **Cyfanswm** | **5,097** | **4,841** |

| | | |
|---|---|---|
| **Credydwyd i Wasanaethau** | | |
| Grantiau a ariannwyd gan yr UE | 53 | 29 |
| Grantiau Eraill gan y Llywodraeth | 840 | 1,054 |
| Grantiau a Chyfraniadau Eraill gan Awdurdodau Lleol | 256 | 123 |
| Grant Cronfa Treftadaeth y Loteri | 25 | 31 |
| Grantiau Eraill | 77 | 65 |
| Rhoddion a Chymynroddion | 3 | 4 |
| **Cyfanswm a gredydwyd i wasanaethau** | **1,254** | **1,306** |
| **Cyfanswm Grantiau, Cyfraniadau a Rhoddion** | **6,351** | **6,147** |

**NODYN 10: DADANSODDIAD GODDRYCHOL O WARIANT AC INCWM**

Mae'r nodyn hwn yn esbonio natur gwariant ac incwm yr Awdurdod fel y dangosir yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| | **2022/23**<br>£000 | **2021/22**<br>£000 |
|---|---|---|
| **Gwariant** | | |
| Buddion cyflogeion | 4,852 | 4,473 |
| Gwasanaethau eraill | 2,472 | 2,609 |
| Dibrisiant, amorteiddio, ailbrisio | 358 | 317 |
| Taliadau llog | 300 | 320 |
| **Cyfanswm gwariant** | **7,982** | **7,719** |
| **Incwm** | | |
| Incwm o ffïoedd, taliadau a gwasanaethau | (844) | (952) |
| Incwm o log a buddsoddi | (58) | (7) |
| Ardollau | (1,035) | (1,035) |
| Grantiau'r Llywodraeth a chyfraniadau eraill | (5,314) | (5,112) |
| **Cyfanswm incwm** | **(7,251)** | **(7,106)** |
| **Gwarged / (diffyg) ar ddarparu gwasanaethau** | **(731)** | **(613)** |

**NODYN 11: Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail ariannu dan reoliadau**

Mae'r nodyn hwn yn nodi'r addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol mewn cysylltiad â'r adnoddau y nododd darpariaethau statudol eu bod ar gael i'r Awdurdod i dalu am wariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol. Ceir disgrifiad isod o'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol, y gwneir addasiadau yn ei herbyn.

**Y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol**

Y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol yw'r gronfa statudol y mae'n ofynnol talu holl dderbyniadau awdurdod iddi ac y telir yr holl rwymedigaethau ohoni, ac eithrio i'r graddau y gallai rheolau statudol fod yn darparu fel arall. At hynny, gall y rheolau hyn bennu'r flwyddyn ariannol y dylai rhwymedigaethau a thaliadau effeithio ar y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol, na fydd o reidrwydd yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Felly, mae'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol yn crynhoi'r adnoddau

y mae gan yr Awdurdod bŵer statudol i'w gwario ar ei wasanaethau neu ar fuddsoddi cyfalaf. Caiff manylion yr addasiadau eu darparu isod.

| **Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail ariannu 2022/23** | Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol | Cyfrif Grantiau Cyfalaf Nas Defnyddiwyd | Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf | Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Addasiadau i adnoddau refeniw** | | | | |
| Y symiau y mae incwm a gwariant sydd yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i refeniw ar gyfer y flwyddyn, wedi'u cyfrifo yn unol â gofynion statudol | | | | |
| Costau pensiynau (trosglwyddiadau i/o'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau) | 1,025 | | | 1,025 |
| Absenoldebau cronedig | 62 | | | 62 |
| Gwrthdroi cofnodion sydd yn y gwarged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau mewn perthynas â gwariant cyfalaf | 358 | | | 358 |
| Cyfanswm addasiadau i adnoddau refeniw | 1,445 | - | - | 1,445 |
| **Addasiadau rhwng adnoddau refeniw a chyfalaf** | | | | |
| Trosglwyddo grantiau cyfalaf a chyfraniadau i grantiau cyfalaf nas defnyddiwyd | - | - | - | - |
| Trosglwyddo grantiau cyfalaf a chyfraniadau i refeniw (eitemau anghymwys heb eu cyfalafu) | 69 | (69) | - | - |
| Gwariant cyfalaf wedi'i ariannu o falansiau refeniw | (1) | - | - | (1) |
| Grantiau cyfalaf drwy'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (918) | - | - | (918) |
| Cyfanswm addasiadau rhwng adnoddau refeniw a chyfalaf | (850) | (69) | - | (919) |
| **Addasiadau i adnoddau cyfalaf** | | | | |
| Defnyddio derbyniadau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | - | - | (24) | (24) |
| Defnyddio grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | - | (147) | - | (147) |
| Cyfanswm addasiadau i adnoddau cyfalaf | - | (147) | (24) | (171) |
| **Cyfanswm addasiadau** | **595** | **(216)** | **(24)** | **355** |

| **Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a’r sail ariannu 2021/22** | Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol<br>**£000** | Cyfrif Grantiau Cyfalaf Nas Defnyddiwyd<br>**£000** | Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf<br>**£000** | Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy<br>**£000** |
|---|---|---|---|---|
| **Addasiadau i adnoddau refeniw** | | | | |
| Y symiau y mae incwm a gwariant sydd yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i refeniw ar gyfer y flwyddyn, wedi’u cyfrifo yn unol â gofynion statudol | | | | |
| Costau pensiynau (trosglwyddiadau i/o’r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau) | 1,112 | | | 1,112 |
| Absenoldebau cronedig | 0 | | | 0 |
| Gwrthdroi cofnodion sydd yn y gwarged neu’r diffyg ar ddarparu gwasanaethau mewn perthynas â gwariant cyfalaf | 317 | | | 317 |
| Cyfanswm addasiadau i adnoddau refeniw | 1,429 | - | - | 1,429 |
| **Addasiadau rhwng adnoddau refeniw a chyfalaf** | | | | |
| Trosglwyddo grantiau cyfalaf a chyfraniadau i grantiau cyfalaf nas defnyddiwyd | - | - | - | - |
| Trosglwyddo grantiau cyfalaf a chyfraniadau i refeniw (eitemau anghymwys heb eu cyfalafu) | 51 | (51) | - | - |
| Gwariant cyfalaf wedi’i ariannu o falansiau refeniw | (33) | - | - | (33) |
| Grantiau cyfalaf drwy’r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (627) | - | - | (627) |
| Cyfanswm addasiadau rhwng adnoddau refeniw a chyfalaf | (609) | (51) | - | (660) |
| **Addasiadau i adnoddau cyfalaf** | | | | |
| Defnyddio derbyniadau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | - | - | (105) | (105) |
| Defnyddio grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | - | (216) | - | (216) |
| Cyfanswm addasiadau i adnoddau cyfalaf | - | (216) | (105) | (321) |
| **Cyfanswm addasiadau** | **820** | **(267)** | **(105)** | **448** |

**NODYN 12: SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN WEDI'U CLUSTNODI**

Mae'r nodyn hwn yn disgrifio'r symiau sydd wedi'u neilltuo gan yr Awdurdod o'i adnoddau refeniw i dalu am gostau yn y dyfodol, y mae eu hamseriad a'u graddau yn ansicr. Caiff y cronfeydd wrth gefn hyn eu dal nes y bydd eu hangen neu nes y bydd yr Awdurdod yn penderfynu na fydd y costau disgwyliedig yn digwydd.

Caiff crynodeb o symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf ei ddarparu isod:

| | Balans ar 31 Mawrth 2021 | Trosglwyddiadau allan | Trosglwyddiadau i mewn | Balans ar 31 Mawrth 2022 | Trosglwyddiadau allan | Trosglwyddiadau i mewn | Balans ar 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Grantiau Refeniw Penodol gan Lywodraeth Cymru wedi'u haddo i brosiectau | 630 | (305) | 70 | 395 | (176) | 34 | 253 |
| Symiau Adran 106/Tai Fforddiadwy a dderbyniwyd gan yr Awdurdod ond nas defnyddiwyd eto | 322 | 0 | 54 | 376 | 0 | 31 | 407 |
| Cronfeydd Wrth Gefn Eraill wedi'u Clustnodi | 604 | (115) | 160 | 649 | (67) | 370 | 952 |
| **Cyfanswm** | **1,556** | **(420)** | **284** | **1,420** | **(243)** | **435** | **1,612** |

Caiff dibenion cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi sydd yn y tabl uchod, y mae eu balansiau'n fwy na £30,000, eu nodi isod.

1. <u>Grantiau Refeniw Penodol gan Lywodraeth Cymru wedi'u haddo i brosiectau</u>

Cyllid Refeniw Penodol Llywodraeth Cymru 2017 £52,000 (2021/22 £81,000)
Mae'r gronfa wrth gefn hon yn dal y gyfran o gyllid refeniw nas gwariwyd ar gyfer ystod o brosiectau penodol, a ddarparwyd i'r Awdurdod yn ychwanegol at ei grant craidd yn 2016/17.

Cyllid Refeniw Penodol Llywodraeth Cymru 2018 £24,000 (2021/22 £26,000)
Mae'r gronfa wrth gefn hon yn dal y gyfran o gyllid refeniw nas gwariwyd ar gyfer ystod o brosiectau penodol, a ddarparwyd i'r Awdurdod yn ychwanegol at ei grant craidd yn 2017/18.

Cyllid Refeniw Penodol Llywodraeth Cymru 2019 £144,000 (2021/22 £218,000)
Mae'r gronfa wrth gefn hon yn dal y gyfran o gyllid refeniw nas gwariwyd ar gyfer ystod o brosiectau penodol, a ddarparwyd i'r Awdurdod yn ychwanegol at ei grant craidd yn 2018/19.

Cyllid Refeniw Penodol Llywodraeth Cymru 2022 £0 (2021/22 £70,000)

Mae'r gronfa wrth gefn hon yn dal y gyfran o gyllid refeniw nas gwariwyd ar gyfer ystod o brosiectau penodol, a ddarparwyd i'r Awdurdod yn ychwanegol at ei grant craidd yn 2021/22.

Cyllid Refeniw Penodol Llywodraeth Cymru 2023 £34,000
Mae'r gronfa wrth gefn hon yn dal y gyfran o gyllid refeniw nas gwariwyd ar gyfer ystod o brosiectau penodol, a ddarparwyd i'r Awdurdod yn ychwanegol at ei grant craidd yn 2022/23.

2. <u>Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Symiau Adran 106/Tai Fforddiadwy £407,000 (2021/22 £376,000)</u>

Mae'r gronfa wrth gefn hon wedi'i sefydlu i gadw symiau Adran 106 sy'n daladwy i'r Awdurdod mewn perthynas â datblygu eiddo, wrth ddisgwyl iddynt gael eu dyrannu i ymgeiswyr ar gyfer darparu tai fforddiadwy.

3. <u>Cronfeydd Wrth Gefn Eraill wedi'u Clustnodi</u>

**Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Diffyg Arfaethedig £230,000**
Cafodd cronfa wrth gefn newydd ar gyfer diffyg arfaethedig yr Awdurdod ei sefydlu yn 2022/23 er mwyn adlewyrchu'r effaith ar y balans a gaiff ei ddal yn y Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol. Disgwylir y bydd gwariant yn y dyfodol yn uwch na'r incwm yng ngweithgareddau craidd yr Awdurdod, yn y tymor canolig. Mae'r Awdurdod wedi rhagweld diffygion ar gyfer y ddwy flynedd sydd i ddod, felly mae'n ddoeth paratoi ar gyfer yr effaith hon.

**Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cymynroddion £104,000 (2021/22 £134,000)**
Cafodd y gronfa wrth gefn hon ei sefydlu i glustnodi cyllid a dderbyniwyd ar ffurf cymynroddion, nes y bydd modd ei ddefnyddio'n briodol er budd y Parc Cenedlaethol. Yn ystod 2022/23, cytunwyd y byddai £30,566 yn cael ei ddyrannu yn y cynnig am grant 20:80, a oedd yn canolbwyntio ar wella hygyrchedd y ganolfan ymwelwyr.

**Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Cadwraeth £88,000 (2021/22 £88,000)**
Caiff ffïoedd a dderbynnir gan yr Awdurdod oddi wrth sefydliadau sy'n defnyddio tir yr Awdurdod i ffilmio, heb gynnwys unrhyw gostau cysylltiedig, eu rhoi o'r neilltu i'w defnyddio ar brosiectau gwella amgylcheddol a gwariant arall er budd y Parc Cenedlaethol.

**Cymorth i Brosiectau £118,000 (2021/22 £87,000)**
Cafodd y gronfa wrth gefn hon ei sefydlu i dalu am gostau a galwadau ychwanegol a allai godi wrth weithredu prosiectau sy'n benodol o ran amser.

**Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Ymchwiliad i'r Cynllun Datblygu Lleol £74,000 (2021/22 £74,000)**
Mae'r gyfraith yn mynnu bod yr Awdurdod yn cyhoeddi Cynllun Datblygu Lleol o dro i dro. Mae hynny'n golygu llawer o waith ymgynghori a chasglu data, ymchwiliad cyhoeddus a gaiff ei gynnal gan Arolygydd Cynllunio allanol, a chostau cyhoeddi bob 3-5 mlynedd. Cafodd arian ei roi o'r neilltu bob blwyddyn i helpu i dalu'r costau hyn sy'n codi dro ar ôl tro. Cafodd y Cynllun cyfredol ei fabwysiadu yn 2014 a chaiff adroddiad monitro blynyddol ei lunio ar gyfer Llywodraeth Cymru.

**Symiau wedi'u Clustnodi gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy £108,000 (2021/22 £53,000)**
Mae'r gronfa wrth gefn hon yn cynnwys ymrwymiadau cyllido a gytunwyd gan y Panel Dyrannu Grantiau ond nad oedd y sawl y dyfarnwyd y grantiau iddynt wedi'u hawlio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Cronfa wrth gefn i ddarparu ar gyfer costau terfynu swyddi swyddogion prosiect dros dro £50,000 (2021/22 £50,000)**
Fe'i sefydlwyd i gydnabod y gyfran gynyddol o gyflogeion a gaiff eu cyflogi dros dro ar gyfer prosiectau penodol, er mwyn talu am dreuliau posibl nas ariannwyd, yr aethpwyd iddynt wrth derfynu contractau.

**Cronfa wrth gefn i ddarparu ar gyfer prynu cerbydau newydd a rennir, yn lle'r hen gerbydau £60,000 (2021/22 £40,000)**
Caiff y gronfa wrth gefn hon ei dal er mwyn ariannu camau yn y dyfodol i brynu cerbydau newydd a rennir, yn lle'r hen gerbydau. Y nod yw ychwanegu at y balans bob blwyddyn os oes arian ar gael.

## NODYN 13: Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy

Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy yw'r rheini sydd dan gyfyngiadau ac na ellir eu defnyddio i ariannu gweithgareddau gweithredol yr Awdurdod.
Mae hynny oherwydd un o ddau reswm:

- Maent yn cynrychioli asedau a gydnabyddir yn y cyfrifon, nad ydynt ar gael yn hawdd i ategu gwariant cyfredol;
  neu
- Maent yn cynrychioli rhwymedigaethau yn y dyfodol, a fydd yn dod ar draws yr Awdurdod yn ystod blynyddoedd diweddarach ond nad ydynt, dan statud, yn rhwymedigaethau y gellir eu codi yn erbyn y gyllideb nes y byddant yn dod yn ddyledus, e.e. diffygion pensiynau.

| | **31 Mawrth 2022/23** £000 | **31 Mawrth 2022/21** £000 |
|---|---|---|
| Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio | 3,406 | 3,450 |
| Cyfrif Addasu Cyfalaf | 5,730 | 4,958 |
| Cyfrif Absenoldebau Cronedig | (125) | (63) |
| Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau | (573) | (11,378) |
| **Cyfanswm** | **8,438** | **(3,033)** |

### Cronfa Wrth Gefn ar Gyfer Ailbrisio

Mae'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio yn cynnwys yr enillion a wnaed gan yr Awdurdod, a oedd yn codi o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, ei Beiriannau a'i Gyfarpar a'i Asedau Anniriaethol. Caiff y balans ei leihau pan gaiff asedau ag enillion cronedig:

- eu hailbrisio i werth llai neu pan amherir arnynt, a bod yr enillion yn cael eu colli
- eu defnyddio i ddarparu gwasanaeth a bod yr enillion yn diflannu drwy ddibrisiant, neu'u gwaredu a bod yr enillion yn cael eu realeiddio.

Dim ond enillion cronedig net ailbrisio y mae'r Gronfa Wrth Gefn yn eu cynnwys, ers iddi gael ei sefydlu ar 1 Ebrill 2007. Mae enillion cronedig a gododd cyn y dyddiad hwnnw wedi'u cyfuno yn y balans ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

| | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---:|---:|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **3,450** | **3460** |
| Gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth teg a dibrisiant cost hanesyddol | (10) | (10) |
| Ailbrisio yn ystod y flwyddyn | (35) | |
| Swm a ddilëwyd i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf | (10) | (10) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **3,405** | **3,450** |

**Cyfrif Addasu Cyfalaf**

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau o ran amseru sy'n codi o'r trefniadau gwahanol ar gyfer defnyddio asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu'r broses o gaffael, adeiladu neu ychwanegu at yr asedau hynny dan ddarpariaethau statudol. Caiff y cyfrif ei ddebydu â'r gost o gaffael neu adeiladu neu'r costau dilynol wrth i ddibrisiant, colledion oherwydd amhariad, ac amorteiddio gael eu codi ar y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff y cyfrif ei gredydu â'r symiau a roddwyd o'r neilltu gan yr Awdurdod fel arian ar gyfer costau caffael neu adeiladu a chostau dilynol. Mae'r cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar eiddo y buddsoddwyd ynddo ac yn cynnwys enillion a gydnabuwyd yn asedau a roddwyd, nad yw'r Awdurdod wedi'u defnyddio eto.

Mae'r cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisio sydd wedi cronni ar Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y cafodd y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio ei chreu er mwyn dal enillion o'r fath. Mae'r symudiadau yn y gronfa wrth gefn yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 2023<br>£000 | 2022<br>£000 |
|---|---:|---:|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **4,958** | **4,284** |
| **Eitemau wedi'u hariannu gan gyfalaf, a godwyd ar y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | |
| Taliadau am ddibrisiant ac amhariad o ran asedau anghyfredol | (352) | (307) |
| Asedau a ddatgydnabuwyd yn ystod y flwyddyn | (6) | 0 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | 0 | (10) |

| | | |
|---|---|---|
| **Is-gyfanswm** | (358) | (317) |
| **Gwerthoedd a ryddhawyd o'r Gronfa wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio** | | |
| Costau dibrisiant a ariannwyd o'r Gronfa wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio | 10 | 10 |
| Costau net asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (348) | (307) |
| **Arian cyfalaf a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn** | | |
| Defnydd o'r Gronfa wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | 24 | 105 |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau o'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 918 | 627 |
| Cyllid o'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf Nas Defnyddiwyd | 146 | 216 |
| Cyllid cymynroddion | 31 | 0 |
| Cyfraniadau refeniw i gostau cyfalaf o'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 1 | 33 |
| **Is-gyfanswm** | 1,120 | 981 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **5,730** | **4,958** |

**Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau**

Mae'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau o ran amseru sy'n codi o'r trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifyddu buddion ôl-gyflogaeth ac ar gyfer ariannu buddion yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn cyfrifyddu buddion ôl-gyflogaeth yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan fod y buddion yn cael eu hennill gan gyflogeion sy'n cronni blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddaru'r rhwymedigaethau a gydnabyddir er mwyn adlewyrchu chwyddiant, newidiadau mewn rhagdybiaethau ac elw o fuddsoddi ar unrhyw adnoddau a neilltuwyd i dalu'r costau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn mynnu bod buddion a enillwyd yn cael eu hariannu gan fod yr Awdurdod yn talu cyfraniadau'r cyflogwr i gronfeydd pensiwn neu ymhen amser yn talu unrhyw bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt.

Mae'r trefniadau statudol yn sicrhau y bydd cyllid wedi'i neilltuo erbyn yr adeg y bydd angen talu'r buddion.

| | **2023 £000** | **2022 £000** |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **(11,378)** | **(15,536)** |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau pensiynau a ariennir | 11,830 | 5,270 |
| Addasiad ar gyfer rhwymedigaeth hanesyddol nas ariannwyd, nad yw'n berthnasol mwyach | 0 | 0 |
| Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddion ymddeol a gafodd eu debydu neu'u credydu i'r Gwarged neu'r Diffyg | (1,650) | (1,650) |

| | | |
|---|---|---|
| ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | 625 | 538 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **(573)** | **(11,378)** |

**Y Cyfrif Absenoldebau Cronedig**

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol drwy gronni ar gyfer absenoldebau gyda thâl, a enillwyd ond nas cymerwyd yn ystod y flwyddyn, e.e. hawl i wyliau blynyddol a oedd yn ddyledus ond nad oeddent wedi'u cymryd ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn mynnu bod yr effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei niwtraleiddio drwy drosglwyddiadau i mewn neu allan o'r Cyfrif.

| | **2023 £000** | **2022 £000** |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **(63)** | **(63)** |
| Newid net mewn Croniadau*; swm y gwahaniaeth rhwng y gydnabyddiaeth ariannol i swyddogion a godir ar y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r gydnabyddiaeth ariannol y gellir ei chodi yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (62) | 0 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **(125)** | **(63)** |

***Ailasesodd yr Awdurdod y dull a ddefnyddir i gyfrifo absenoldebau cronedig yn ystod 2022/23 a phenderfynodd fod angen diwygio er mwyn cael gwybodaeth fwy cywir i ddefnyddwyr, a arweiniodd at y cynnydd yn y balans. Gan fod hynny ar sail amcangyfrif, ni chyfrifwyd y swm yn ôl-weithredol.**

## NODYN 14: Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | Tir ac Adeiladau | Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn a Chyfarpar | Asedau Seilwaith | Asedau Cymunedol | Asedau Dros Ben | Asedau a Adeiledir | Cyfanswm Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Symudiadau yn 2022/23** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Cost neu Brisiad:** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 5,595 | 810 | 1,592 | 1,297 | 0 | 189 | 9,483 |
| Ychwanegiadau | 20 | 97 | 601 | 273 | 0 | 122 | 1,113 |
| Cynnydd/(gostyngiad) ar ôl prisio a gydnabuwyd yn y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio | (126) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (126) |
| Symudiadau eraill o ran dibrisiant, datgydnabod ac amharu | 0 | 0 | -6 | 0 | 0 | 0 | -6 |
| Cynnydd/(gostyngiad) ar ôl prisio a gydnabuwyd yn y gwarged/diffyg ar ddarparu gwasanaethau* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Datgydnabod (gwaredu a dileu) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trosglwyddiadau (asedau a ailddosbarthwyd) | 168 | 0 | 0 | 0 | 0 | (168) | 0 |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 5,657 | 907 | 2,187 | 1,570 | 0 | 143 | 10,464 |
| **Dibrisiant ac amharu cronedig** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 152 | 235 | 614 | 90 | 0 | 0 | 1,091 |
| Namyn dibrisiant cronedig a ddilëwyd ar ailbrisio/gwaredu | (91) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (91) |
| Dibrisiant a ddilëwyd i'r gronfa wrth gefn ar gyfer ailbrisio | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 |
| Dibrisiant a ddilëwyd i'r gwarged/diffyg ar ddarparu gwasanaethau | 25 | 151 | 116 | 50 | 0 | 0 | 342 |
| **Cyfanswm y tâl am ddibrisiant ar gyfer y flwyddyn** | (56) | 151 | 116 | 50 | 0 | 0 | 261 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | 96 | 386 | 730 | 140 | 0 | 0 | 1,352 |
| **Gwerth Net ar y Llyfrau** | | | | | | | |
| *Ar 31 Mawrth 2022* | *5,443* | *575* | *978* | *1,207* | *0* | *189* | *8,392* |
| *Ar 31 Mawrth 2023* | ***5,561*** | ***521*** | ***1,457*** | ***1,430*** | ***0*** | ***143*** | ***9,112*** |

| | Tir ac Adeiladau | Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn a Chyfarpar | Asedau Seilwaith | Asedau Cymunedol | Asedau Dros Ben | Asedau a Adeiledir | Cyfanswm Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Symudiadau yn 2021/22** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Cost neu Brisiad:** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 5,526 | 677 | 1,279 | 1,020 | 0 | 0 | 8,502 |
| Ychwanegiadau | 69 | 133 | 313 | 277 | 0 | 189 | 981 |
| Cynnydd/(gostyngiad) ar ôl prisio a gydnabuwyd yn y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynnydd/(gostyngiad) ar ôl prisio a gydnabuwyd yn y gwarged/diffyg ar ddarparu gwasanaethau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Datgydnabod (gwaredu a dileu) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trosglwyddiadau (asedau a ailddosbarthwyd) | 0 | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 5,595 | 810 | 1,592 | 1,297 | 0 | 189 | 9,483 |
| **Dibrisiant ac amharu cronedig** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 120 | 107 | 506 | 51 | 0 | 0 | 784 |
| Cywiriad talgrynnu | | | | | | | |
| Namyn dibrisiant cronedig a ddilëwyd ar ailbrisio/gwaredu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dibrisiant a ddilëwyd i'r gronfa wrth gefn ar gyfer ailbrisio | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 |
| Dibrisiant a ddilëwyd i'r gwarged/diffyg ar ddarparu gwasanaethau | 22 | 128 | 108 | 39 | 0 | 0 | 297 |
| Symudiadau eraill o ran dibrisiant ac amharu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y tâl am ddibrisiant ar gyfer y flwyddyn** | 32 | 128 | 108 | 39 | 0 | 0 | 307 |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | 152 | 235 | 614 | 90 | 0 | 0 | 1,091 |
| **Gwerth Net ar y Llyfrau** | | | | | | | |
| *Ar 31 Mawrth 2021* | *5,406* | *570* | *773* | *969* | *0* | *0* | *7,718* |
| *Ar 31 Mawrth 2022* | ***5,443*** | ***575*** | ***978*** | ***1,207*** | ***0*** | ***189*** | ***8,392*** |

**Prisiadau Asedau ar 31 Mawrth 2023**
Cafodd eiddo rhydd-ddaliadol a lesddaliadol hirdymor Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ei brisio ddiwethaf ar 1 Ebrill 2019 gan y Priswyr Allanol Chris Hyde MSc MRICS FAAV ac Elizabeth Hill BSc MRICS o Syrfewyr Siartredig Cooke & Arkwright. Roedd y prisiadau'n cydymffurfio â gofyniad Safonau Byd-eang Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig ar gyfer Prisio 2017 (*RICS Valuation – Global Standards 2017*) (Y Llyfr Coch), Safonau Rhyngwladol ar gyfer Prisio 2017 ac atodiad cenedlaethol y DU i Safonau Byd-eang Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig ar gyfer Prisio 2017. Dyma oedd y seiliau a'r rhagdybiaethau wrth brisio pob eiddo:

1. *Yn achos eiddo perchen-feddianwyr, peiriannau a chyfarpar anarbenigol: cafodd yr eiddo ei brisio ar sail Gwerth Defnydd Presennol gan dybio y byddai'r defnydd presennol a wneir o'r eiddo yn parhau.*
2. *Yn achos eiddo perchen-feddianwyr, peiriannau a chyfarpar arbenigol: cafodd yr eiddo ei brisio ar sail Gwerth Defnydd Presennol gan ddefnyddio Cost Amnewid wedi'i Dibrisio, gan dybio y byddai'r defnydd presennol a wneir o'r eiddo yn parhau.*
3. *Yn achos eiddo buddsoddi: cafodd yr eiddo ei brisio ar sail Gwerth Teg, gan dybio y byddai'r eiddo yn cael ei werthu yn amodol ar unrhyw brydlesi sy'n bodoli.*

| **Gwerth Gros adeg y prisiad diwethaf** | **Tir ac Adeiladau £000** | **Cerbydau, Dodrefn, Peiriannau a Chyfarpar £000** | **Asedau Seilwaith £000** | **Asedau Cymunedol £000** | **Asedau Dros Ben £000** | **Asedau a Adeiledir £000** | **CYFANSWM £000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cariwyd ar sail cost hanesyddol | 313 | 907 | 2,193 | 1,570 | 0 | 143 | 5,126 |
| Prisiwyd ar sail gwerth teg ar 1 Ebrill 2019 | 5,470 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5,470 |
| CYFANSWM | **5,783** | **907** | **2,193** | **1,570** | **0** | **143** | **10,596** |

Gweler Nodyn 4 hefyd ynghylch ansicrwydd yn effeithio ar werthoedd asedau.

**Dibrisiant:** Caiff yr holl asedau heblaw tir eu dibrisio, yn unol â Datganiad yr Awdurdod o Bolisïau Cyfrifyddu.

**Ymrwymiadau Cyfalaf**: Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan yr Awdurdod werth £67,000 (£210,000 ar 31 Mawrth 2022) o ymrwymiadau cyfalaf.

## NODYN 15: Asedau Anniriaethol

| | 2022/23 £000 | 2022/23 £000 Yn cael eu datblygu | 2021/22 £000 | 2021/22 £000 Yn cael eu datblygu |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar ddechrau'r flwyddyn** | | | | |
| Symiau cario gros | 53 | 24 | 53 | 0 |
| Namyn swm cario ased a ddatgydnabuwyd | (13) | 0 | 0 | 0 |
| **Balans ar ddechrau'r flwyddyn** | **40** | **24** | **53** | **0** |
| Amorteiddio cronedig | 53 | 0 | 43 | 0 |
| Namyn yr amorteiddio cronedig ar ased a ddatgydnabuwyd | (13) | 0 | 0 | 0 |
| **Amorteiddio net ar ddechrau'r flwyddyn** | **40** | **0** | **43** | **0** |
| **Swm cario net ar ddechrau'r flwyddyn** | 0 | 24 | 10 | 0 |
| Ychwanegiadau – Pryniadau | 7 | 0 | 0 | 0 |
| Asedau Anniriaethol sy'n cael eu hadeiladu a drosglwyddwyd i Asedau Anniriaethol | 24 | (24) | 0 | 24 |
| Amorteiddio ar gyfer y cyfnod | 0 | 0 | (10) | 0 |
| **Swm cario net ar ddiwedd y flwyddyn** | **31** | **0** | **0** | **24** |

## NODYN 16: Colledion oherwydd amhariadau

Mae Cod Ymarfer CIPFA yn mynnu bod yr Awdurdod yn datgelu unrhyw golledion neu wrthdroadau oherwydd amhariadau, a godwyd ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ac ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall. Mae'r datgeliadau hyn wedi'u cyfuno yn Nodiadau 14 a 15, sy'n cysoni'r symudiadau yn ystod y flwyddyn yn y balansiau ar gyfer Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar ac Asedau Anniriaethol.

Ni nodwyd unrhyw amhariadau yn ystod 2022/23 (nac yn ystod 2021/22 chwaith). Ailbrisiwyd Tir ac Adeiladau ar 1 Ebrill 2019 ac ailaseswyd eu hoes fel asedau. Mae unrhyw newidiadau i oes asedau wedi'u hystyried wrth gyfrifo dibrisiant.

**NODYN 17: Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf**

Mae cyfanswm y gwariant cyfalaf yr aethpwyd iddo yn ystod y flwyddyn wedi'i ddangos yn y tabl isod, ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Pe bai gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod drwy godi amdano ar y cyfrif refeniw wrth i'r Awdurdod ddefnyddio asedau, byddai angen cyfrifo'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf ar gyfer y gwariant. Gan fod yr Awdurdod yn ddiddyled ar hyn o bryd, nid oes angen cyfrifo hynny.

| | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|
| **Gofyniad ariannu cyfalaf agoriadol** | - | - |
| **Buddsoddi cyfalaf**<br>Gwariant ar asedau cyfalaf | | |
| Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar | 1,113 | 981 |
| Asedau Anniriaethol | 7 | - |
| | **1,120** | **981** |
| **Namyn: Ffynonellau arian** | | |
| Trosglwyddo o'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf Nas Defnyddiwyd | (146) | (216) |
| Cymhwyso Grantiau'r Llywodraeth a chyfraniadau eraill | (918) | (627) |
| Cymhwyso Derbyniadau Cyfalaf | (24) | (105) |
| Arian Cymynroddion | (31) | - |
| Cyfraniadau Refeniw | (1) | (33) |
| **Gofyniad Ariannu Cyfalaf Terfynol** | **0** | **0** |

**NODYN 18: Rhestrau Eiddo**

| | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|
| **Rhestrau Eiddo Agoriadol** | **64** | **27** |
| Pryniadau | 99 | 90 |
| Cydnabuwyd fel traul yn ystod y flwyddyn | (93) | (53) |
| **Rhestrau Eiddo Terfynol ar** | **70** | **64** |

**NODYN 19: Dyledwyr Byrdymor**

| | 31 Mawrth<br>2023<br>£000 | 31 Mawrth<br>2022<br>£000 |
|---|---|---|
| **Dyledwyr sy'n dod yn ddyledus cyn pen llai na blwyddyn** | | |
| Cyrff Llywodraeth Ganolog | 618 | 495 |
| Awdurdodau Lleol Eraill | 235 | 85 |
| Arall | 540 | 218 |
| **Cyfanswm Dyledwyr Byrdymor** | **1,393** | **798** |

**NODYN 20: Arian Parod ac Elfennau sy'n Cyfateb i Arian Parod**

| | 31 Mawrth 2023 £000 | 31 Mawrth 2022 £000 |
|---|---|---|
| Arian parod a ddelir gan yr Awdurdod | 2 | 2 |
| Cyfrifon cyfredol mewn banc | 2,992 | 3,957 |
| **Cyfanswm** | **2,994** | **3,959** |

**NODYN 21: Credydwyr sy'n dod yn ddyledus cyn pen llai na blwyddyn**

| | 31 Mawrth 2023 £000 | 31 Mawrth 2022 £000 |
|---|---|---|
| Cyrff Llywodraeth Ganolog | 170 | 94 |
| Awdurdodau Lleol | 167 | 89 |
| Endidau Eraill ac Unigolion | 772 | 824 |
| **Cyfanswm** | **1,109** | **1,007** |

**NODYN 22: Datganiad o Lif Arian Parod: Gweithgareddau Gweithredu**

| | 2022/23 £000 | 2021/22 £000 |
|---|---|---|
| Dibrisiant | (358) | (307) |
| Amorteiddio | - | (10) |
| Cynnydd/gostyngiad mewn Rhestrau Eiddo | 6 | 37 |
| Cynnydd/gostyngiad mewn Dyledwyr Byrdymor | 595 | (56) |
| Cynnydd/gostyngiad mewn Credydwyr Byrdymor | (102) | (213) |
| Symudiad mewn Rhwymedigaeth o ran Pensiynau | (1,025) | (1,112) |
| Grantiau Cyfalaf wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 918 | 627 |
| Symudiadau eraill nad ydynt yn ymwneud ag arian parod | (2) | - |
| | **32** | **(1,034)** |

**NODYN 23: Datganiad o Lif Arian – Gweithgareddau Buddsoddi**

| | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar ac asedau anniriaethol | 1,120 | 981 |
| Elw o werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar ac asedau anniriaethol | 0 | 0 |
| Derbyniadau eraill o weithgareddau buddsoddi (Grantiau Cyfalaf) | (918) | (627) |
| **Llifau arian net o weithgareddau buddsoddi** | **202** | **354** |

**NODYN 24: Datganiad o Lif Arian – Gweithgareddau Ariannu**
Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw fenthyciadau byrdymor na hirdymor, felly nid oes ganddo unrhyw drafodion Gweithgareddau Ariannu i'w datgelu.

**NODYN 25: Lwfansau Aelodau**
Talodd yr Awdurdod y symiau canlynol i aelodau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn.

| | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|
| Lwfansau | 86 | 87 |
| Treuliau | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **87** | **87** |

**NODYN 26: Cydnabyddiaeth Ariannol i Swyddogion a buddion terfynu cyflogaeth**

Dyma'r gydnabyddiaeth ariannol a dalwyd i uwch-swyddogion yr Awdurdod:

| **2022/23** | **Cyflog**<br><br>**£000** | **Treuliau Trethadwy**<br><br>**£000** | **Cyfraniad y Cyflogwr i Bensiwn**<br><br>**£000** | **Taliad Terfynu Cyflogaeth**<br><br>**£000** | **Cyfanswm**<br><br>**£000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Prif Weithredwr | 85 | 0 | 18 | 0 | 103 |
| Cyfarwyddwr Adfer Natur a Newid Hinsawdd | 65 | 0 | 14 | 0 | 79 |
| Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle | 65 | 0 | 14 | 0 | 79 |
| Prif Swyddog Cyfreithiol | 65 | 0 | 14 | 0 | 79 |

| **2021/22** | **Cyflog**<br><br>**£000** | **Treuliau Trethadwy**<br><br>**£000** | **Cyfraniad y Cyflogwr i Bensiwn**<br><br>**£000** | **Taliad Terfynu Cyflogaeth**<br><br>**£000** | **Cyfanswm**<br><br>**£000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Prif Weithredwr | 57 | 0 | 12 | 0 | 69 |
| Swyddog Monitro | 46 | | 10 | | 56 |

Roedd pedwar uwch-swyddog yn cael cydnabyddiaeth ariannol a oedd yn fwy na £60,000 y flwyddyn yn 2022/23 (dau uwch-swyddog yn 2021/22). Cyflog blynyddol y Prif Weithredwr ar ffurf lluosrif cyflog canolrifol cyflogeion yr Awdurdod, sef £29,439, yw 2.89 (lluosrif cyflog canolrifol cyflogeion yr Awdurdod yn 2021/22, sef £27,514, oedd 3.0).

**Buddion terfynu cyflogaeth**

Yn 2022/23, ni wnaeth yr Awdurdod dalu unrhyw fuddion terfynu cyflogaeth, oherwydd ni chafodd unrhyw swyddi eu dileu. Yn 2021/22, cafodd un taliad terfynu cyflogaeth o £8,983 ei wneud.

**NODYN 27: Costau Archwilio Allanol**

Aeth yr Awdurdod i'r costau canlynol mewn perthynas ag archwilio'r Datganiad o Gyfrifon, ardystio hawliadau am grantiau, ac arolygiadau statudol a ddarparwyd gan archwilwyr allanol yr Awdurdod.

| Ffïoedd taladwy i Archwilio Cymru, yr archwilwyr allanol: | 2022/23 £000 (disgwyliedig) | 2021/22 £000 |
|---|---|---|
| Archwilio Ariannol | 66 | 35 |
| Archwilio Perfformiad | 23 | 29 |
| **Cyfanswm** | **89** | **64** |

**NODYN 28: Partïon Cysylltiedig**

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu trafodion materol â phartïon cysylltiedig – cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli'r Awdurdod neu ddylanwadu arno neu i gael eu rheoli gan yr Awdurdod neu fod dan ei ddylanwad. Mae datgelu'r trafodion hynny'n galluogi darllenwyr i asesu'r graddau y gallai gallu'r Awdurdod i weithredu'n annibynnol fod wedi'i gyfyngu, neu'r graddau y gallai'r Awdurdod fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd â'r Awdurdod.

**Llywodraeth Ganolog**

Mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth effeithiol ar weithrediadau cyffredinol yr Awdurdod – mae'n darparu'r rhan fwyaf o gyllid yr Awdurdod ar ffurf grantiau a thrwy bennu cyfanswm yr Ardoll y caiff yr Awdurdod ei chodi ar ei Awdurdodau Lleol Cyfansoddol. Mae hefyd yn gosod amcanion ar gyfer yr Awdurdod drwy'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'r Llythyr Grant Strategol blynyddol. Caiff gweithrediadau a rheolaeth yr Awdurdod eu rheoli hefyd gan fframwaith statudol sy'n cwmpasu ystod o ddeddfwriaeth sy'n cynnwys diffiniad o'i ddibenion a'i ddyletswydd statudol. Mae derbyniadau grantiau'r Llywodraeth yn ystod y blynyddoedd hyd at 31 Mawrth 2022 a 2023 wedi'u cynnwys yn Nodyn 9.

**Aelodau**

Mae gan 18 aelod yr Awdurdod reolaeth uniongyrchol ar bolisïau ariannol a pholisïau gweithredu'r Awdurdod. Mae cyfanswm y lwfansau a dalwyd i'r aelodau yn 2021/22 ac yn 2022/23 wedi'i ddangos yn Nodyn 25. Os yw penderfyniadau a wneir gan yr Awdurdod yn effeithio'n bersonol ar aelodau, mae'n ofynnol iddynt ddatgan buddiant ac ymatal rhag cymryd rhan yn y penderfyniadau hynny a'r trafodaethau sy'n gysylltiedig â nhw. Caiff manylion buddiannau'r aelodau eu cofnodi yn y Gofrestr o Fuddiannau Aelodau, sydd ar gael ar wefan yr Awdurdod, ynghyd â manylion pellach am dreuliau a dalwyd i'r Aelodau yn ystod y flwyddyn. Ni nodwyd unrhyw drafodion materol rhwng yr Awdurdod a phartïon lle'r oedd sefyllfa'r aelodau yn golygu bod ganddynt reolaeth neu ddylanwad ar y cyd ag eraill, ac eithrio'r trafodion y cyfeiriwyd atynt mewn mannau eraill yn y nodyn hwn.

**Cyrff Cyhoeddus Eraill**

Mae'r Awdurdodau Lleol Cyfansoddol, y mae ffin yr Awdurdod oddi mewn i'w ffiniau nhw, yn cyfrannu i arian yr Awdurdod drwy ardoll statudol a bennir gan Lywodraeth Cymru. Mae pob un o'r awdurdodau hynny'n darparu nifer o Gynghorwyr i wasanaethu fel aelodau o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, ac mae'r nifer honno'n gymesur yn fras â maint yr ardoll y maent yn ei chyfrannu a'u

harwynebedd o fewn y Parc Cenedlaethol. At hynny, derbynnir grantiau at ddibenion penodol gan awdurdodau lleol neu drwy awdurdodau lleol, a dangosir cyfanswm y rheini yn Nodyn 9.

**Uwch-reolwyr**

Mae Prif Weithredwr ac uwch-reolwyr yr Awdurdod mewn sefyllfa i ddylanwadu ar bolisïau'r Awdurdod a'r modd y mae'n dyrannu ei adnoddau. Caiff taliadau i uwch-swyddogion y mae'r gydnabyddiaeth ariannol a gânt yn fwy na £60,000 y flwyddyn eu nodi yn Nodyn 26. Mae'n ofynnol i bob aelod o staff ddatgan unrhyw roddion a lletygarwch a geir.

**Endidau y mae'r Awdurdod yn eu rheoli neu'n dylanwadu yn sylweddol arnynt**

Mae'r Awdurdod yn rhoi grantiau at ddibenion penodol i sefydliadau dan Gynllun Grantiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, ond nid ystyrir bod gan yr Awdurdod unrhyw reolaeth, unrhyw reolaeth ar y cyd nac unrhyw ddylanwad sylweddol ar yr endidau sy'n cael cymorth.

Cafodd yr Awdurdod incwm gwerth cyfanswm o £4,302 gan Goleg yr Iesu Aberhonddu yn 2022/23. Mae un o uwch-aelodau'r tîm rheoli yn Gadeirydd y Pwyllgor yn y Coleg. At hynny, cafodd yr Awdurdod incwm gwerth cyfanswm o £2,500 gan Gymdeithas Brycheiniog a Chyfeillion yr Amgueddfa yn 2022/23. Mae aelod o'r Awdurdod hefyd yn aelod o Gymdeithas Brycheiniog a Chyfeillion yr Amgueddfa.

## NODYN 29: Prydlesi

### Yr Awdurdod fel Prydlesai

Prydlesi Arian: Ar hyn o bryd, nid oes gan yr Awdurdod unrhyw brydlesi materol a gaiff eu hystyried yn brydlesi arian dan delerau Cod Ymarfer CIPFA.

Prydlesi gweithredu: Mae pencadlys yr Awdurdod, rhywfaint o gyfarpar swyddfa a rhai eitemau yn y fflyd gerbydau wedi'u caffael dan brydlesi gweithredu. Dyma'r taliadau prydles lleiaf yn y dyfodol, a fydd yn ddyledus dan brydlesi na ellir eu canslo yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod:

| **Cyfanswm yr Ymrwymiadau dan Brydlesi Gweithredu** | **31 Mawrth 2023 £000** | | **31 Mawrth 2022 £000** | |
|---|---|---|---|---|
| **Taliadau cyn pen blwyddyn** | | | | |
| Adeiladau | 22 | | 22 | |
| Cerbydau | 29 | | 59 | |
| **Cyfanswm** | | 51 | | 81 |
| **Taliadau cyn pen 2-5 mlynedd** | | | | |
| Adeiladau | 26 | | 68 | |
| Cerbydau | 4 | | 30 | |
| **Cyfanswm** | | 30 | | 98 |
| | | | | |
| **Taliadau ar ôl 5 mlynedd** | | **0** | | **0** |
| **Cyfanswm yr ymrwymiadau** | | **81** | | **179** |

**Yr Awdurdod fel Prydleswr**

Prydlesi Arian: Nid yw'r Awdurdod yn gosod eiddo ar brydles dan delerau a fyddai'n cael eu hystyried yn brydlesi arian dan delerau Cod Ymarfer cyfredol CIPFA (ac nid oedd yn gwneud hynny chwaith yn 2021/22).

Prydlesi Gweithredu: Mae'r Awdurdod yn gosod rhannau o'i eiddo ar brydles ym Mharc Gwledig Craig y Nos ac yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol i ddarparwyr arlwyo a busnesau bach. Amcangyfrifir mai'r swm lleiaf y gellir ei dderbyn gan y grŵp cyntaf o denantiaid yw £20,000 cyn pen blwyddyn. Cafodd telerau prydlesi newydd ar gyfer y busnesau arlwyo ar y ddau safle eu cytuno yn ystod 2021/22. Ar hyn o bryd, mae sawl busnes bach yn rhentu safle ar brydles ym Mharc Gwledig Craig y Nos o'r naill fis i'r llall.

**NODYN 30: Cynlluniau Pensiwn Buddion Diffiniedig**

**Cyflwyniad**

Yn rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Awdurdod yn gwneud cyfraniadau tuag at gost buddion ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion hynny'n daladwy nes y bydd cyflogeion yn ymddeol, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i wneud y taliadau y mae'n rhaid eu datgelu pan fydd cyflogeion yn ennill eu hawl yn y dyfodol. Yn unol â Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol, mae datgelu gwybodaeth benodol am asedau, rhwymedigaethau, incwm a gwariant sy'n ymwneud â chynlluniau pensiwn yn ofynnol mewn perthynas â symiau yn y dyfodol.

Mae'r datgeliadau sy'n dilyn yn ymwneud â'r rhwymedigaethau a ariennir o fewn Cronfa Bensiwn Cyngor Sir Powys ("y Gronfa") sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun buddion diffiniedig a ariennir, ac mae'r buddion a enillwyd hyd at 31 Mawrth 2014 yn gysylltiedig â'r cyflog terfynol. Mae buddion ar ôl 31 Mawrth 2014 yn seiliedig ar gynllun enillion cyfartalog gyrfa wedi'u hailbrisio. Caiff manylion y buddion sydd i'w talu ar gyfer y cyfnod y mae'r datgeliad hwn yn ymdrin ag ef eu hegluro yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Diwygio) 2014.

Mae trefniadau heb eu hariannu ar gyfer pensiynau'n deillio o fuddion terfynu a delir yn ôl disgresiwn pan fydd aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ymddeol yn gynnar. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cydnabod enillion a cholledion yn llawn ac ar unwaith trwy Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall. Dyddiad y prisiad actiwaraidd llawn diwethaf o fuddion heb eu hariannu'r cyflogwr yng nghyswllt y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol oedd 31 Mawrth 2019. Nid oes unrhyw rwymedigaeth bellach yn 2022/23 mewn perthynas â buddion heb eu hariannu, ac ni ddatgelir unrhyw wybodaeth am fuddion heb eu hariannu yn ystod y flwyddyn y rhoddir cyfrif amdani.

**Trefniadau Ariannu a Llywodraethu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Gan fod y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn un a ariennir, mae'n ofynnol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'i gyflogeion dalu cyfraniadau i'r Gronfa, a gaiff eu cyfrifo ar lefel y bwriedir iddi sicrhau cydbwysedd rhwng y rhwymedigaethau o ran pensiynau a'r asedau buddsoddi. Caiff gwybodaeth am y fframwaith ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau sydd i'w talu ei nodi yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ac yn Natganiad Strategaeth Ariannu'r Gronfa. Dyddiad y prisiad actiwaraidd diwethaf oedd 31 Mawrth 2019, ac mae'r cyfraniadau sydd i'w talu tan

31 Mawrth 2023 o ganlyniad i'r prisiad hwnnw wedi'u nodi yn Nhystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau'r Gronfa. I gyfrifo lefel y cyfraniadau sy'n ofynnol er mwyn talu ei gyfran ef o rwymedigaethau'r Gronfa ac i gael y datgeliadau a'r cyfrifiadau sy'n ofynnol er mwyn cwblhau'r Datganiad blynyddol o Gyfrifon, mae'r Awdurdod yn defnyddio gwasanaethau actiwari cymwys: AON Solutions UK Limited. Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa, sef Cyngor Sir Powys, sy'n gyfrifol am reoli'r Gronfa.

**Rhagdybiaethau Allweddol**

| | **31 Mawrth 2023** | **31 Mawrth 2022** |
|---|---|---|
| | **(% y flwyddyn)** | **(% y flwyddyn)** |
| Cyfradd y disgownt | 4.7 | 2.7 |
| Chwyddiant ar sail y Mynegai Prisiau Defnyddwyr | 2.7 | 3.0 |
| Codiadau pensiwn | 2.7 | 3.0 |
| Cyfradd ailbrisio Cyfrifon Pensiwn | 2.7 | 3.0 |
| Codiadau cyflog | 4.2 | 4.5 |

**Rhagdybiaethau ynghylch marwolaethau**

Mae'r rhagdybiaethau ynghylch marwolaethau'n seiliedig ar brofiad go iawn aelodau'r Gronfa o farwolaeth, sy'n seiliedig ar ddadansoddiad a gynhaliwyd yn rhan o brisiad 2022, ac maent yn darparu ar gyfer gwelliannau disgwyliedig yn y dyfodol o ran marwolaethau. Caiff enghreifftiau o ddisgwyliad oes pobl 65 oed, o ganlyniad i'r rhagdybiaethau hyn ynghylch marwolaethau, eu dangos isod. Ar 31 Mawrth 2022, cafodd y cyfraddau tybiedig ar gyfer marwolaethau yn y dyfodol eu cynyddu er mwyn adlewyrchu rhagolygon ychydig yn waeth o ganlyniad i'r pandemig Covid-19.

| **Marwolaeth ar ôl ymddeol (iechyd normal adeg ymddeol)** | **31 Mawrth 2023** | **31 Mawrth 2022** |
|---|---|---|
| | **blynyddoedd** | **blynyddoedd** |
| **Dynion** | | |
| Aelod 65 oed ar y dyddiad cyfrifyddu | 22.6 | 21.8 |
| Aelod 45 oed ar y dyddiad cyfrifyddu | 23.5 | 23.2 |
| **Menywod** | | |
| Aelod 65 oed ar y dyddiad cyfrifyddu | 25.0 | 25.0 |
| Aelod 45 oed ar y dyddiad cyfrifyddu | 26.3 | 26.4 |

**Asedau**

Mae'r asedau a ddyrannwyd i'r Cyflogwr yn y Gronfa yn rhai tybiannol, a thybir y cânt eu buddsoddi'n unol â buddsoddiadau'r Gronfa at ddibenion cyfrifo'r elw y dylid ei briodoli i'r asedau tybiannol hynny dros y cyfnod cyfrifyddu. Mae'r Gronfa yn fawr ac yn dal cyfran sylweddol o'i hasedau mewn buddsoddiadau hylifol. O ganlyniad, ni fydd unrhyw gyfyngiad sylweddol ar realeiddio asedau os bydd angen gwneud taliad mawr o'r Gronfa mewn perthynas â rhwymedigaethau cyflogwr. Caiff yr asedau eu buddsoddi mewn amrywiaeth o fuddsoddiadau, ac mae'r modd y mae'r asedau wedi'u rhannu yn fras ar gyfer y Gronfa gyfan (ar sail data a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu) i'w weld yn y datgeliadau sydd wedi'u rhannu yn fuddsoddiadau a ddyfynnwyd ac yn fuddsoddiadau nas dyfynnwyd.

Caiff yr Awdurdod Gweinyddu fuddsoddi cyfran fach o fuddsoddiadau'r Gronfa yn asedau rhai o'r cyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa, os yw hynny'n rhan o'u strategaeth fuddsoddi gytbwys.

**Dyrannu asedau**

| | **Gwerth ar 31/3/2023 %** | | | **Gwerth ar 31/3/2022** |
|---|---|---|---|---|
| | Dyfynnwyd | Nas dyfynnwyd | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Soddgyfrannau | 41.4 | 7.7 | 49.1 | 49.3 |
| Eiddo | 6.9 | 0 | 6.9 | 8.6 |
| Bondiau Llywodraeth | 8.7 | 0 | 8.7 | 10.9 |
| Bondiau Corfforaethol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Credyd Aml-ased | 7.2 | 0 | 7.2 | 11.6 |
| Arian Parod | 1.3 | 0 | 1.3 | 1.7 |
| Arall | 26.5 | 0.3 | 26.8 | 17.9 |
| **Cyfanswm** | **92** | **8** | **100.0** | **100.0** |

**Cysoni'r statws a ariennir â'r Fantolen**

| | **Gwerth ar 31 Mawrth 2023** | **Gwerth ar 31 Mawrth 2022** |
|---|---|---|
| | **£m** | **£m** |
| Gwerth teg yr asedau | 27.06 | 28.44 |
| Gwerth presennol yr ymrwymiad o ran buddion diffiniedig a ariennir | 27.63 | 39.82 |
| **Ased/(rhwymedigaeth) o ran pensiynau, a gydnabyddir ar y Fantolen** | **(0.57)** | **(11.38)** |

Gostyngodd rhwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn o £39.8 miliwn ym mis Mawrth 2022 i £27.6 miliwn ddiwedd mis Mawrth 2023. Y rheswm am y gostyngiad oedd cynnydd o 2% yng nghyfradd y

disgownt y caiff rhwymedigaethau o ran y gronfa bensiwn eu cyfrifo ar ei sail yn y dyfodol, h.y. cyfradd y disgownt a ddefnyddir i gyfrifo ymrwymiadau'r dyfodol i dalu pensiynau. At hynny, cafodd gostyngiad o 0.3% y flwyddyn yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr tybiedig effaith ar y rhwymedigaethau o ran pensiwn. Er bod gwerth asedau wedi gostwng hefyd o £28.4 miliwn i £27.1 miliwn, roedd y gostyngiad dramatig yng ngwerth rhwymedigaethau'n golygu bod y sefyllfa gyffredinol o ran pensiynau wedi symud o ddiffyg o £11.3 miliwn i £0.5 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.

Roedd rhaniad y rhwymedigaethau adeg y prisiad diwethaf rhwng yr amryw gategorïau o aelodau fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Aelodau Gweithredol | 36% |
| Pensiynwyr Gohiriedig | 26% |
| Pensiynwyr | 38% |

**Dadansoddiad o'r symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau) ac mewn Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall**

| | **Cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023** | **Cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022** |
|---|---:|---:|
| | **£m** | **£m** |
| **Cost gweithredu** | | |
| Cost y gwasanaeth cyfredol(1) | 1.35 | 1.33 |
| **Cost ariannu** | | |
| Llog ar y rhwymedigaeth net o ran buddion diffiniedig | 0.30 | 0.32 |
| | | |
| **Y draul o ran pensiynau a gydnabuwyd yn y diffyg ar ddarparu gwasanaethau** | **1.65** | **1.65** |
| | | |
| **Ailfesuriadau mewn Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | |
| Elw ar asedau'r cynllun (sy'n fwy)/sy'n llai na'r swm a gydnabuwyd mewn llog net | 2.08 | (2.18) |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd o ganlyniad i newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol | (15.57) | (2.81) |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd o ganlyniad i newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig | 0.33 | (0.40) |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd o ganlyniad i newidiadau mewn profiad o rwymedigaethau | 1.33 | 0.12 |
| **Cyfanswm a Gydnabuwyd mewn Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall(2)** | **(11.83)** | **(5.27)** |
| **Cyfanswm a Gydnabuwyd** | **(10.18)** | **(3.62)** |

(1) Mae cost y gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans ar gyfer treuliau gweinyddu o £0.03 miliwn yn 2022 a £0.04 miliwn yn 2023.
(2) Mae'r Awdurdod yn cydnabod enillion a cholledion o ran y gronfa bensiwn yn llawn ac ar unwaith drwy gofnodion mewn Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

**Newidiadau i werth presennol yr ymrwymiad o ran buddion diffiniedig**

| | Cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 | Cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | **£m** | **£m** |
| Ymrwymiad agoriadol o ran buddion diffiniedig | **39.82** | **41.43** |
| Cost y gwasanaeth cyfredol | 1.35 | 1.33 |
| Traul o ran llog ar yr ymrwymiad o ran buddion diffiniedig | 1.07 | 0.86 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr | 0.20 | 0.16 |
| (Enillion)/colledion actwaraidd o ganlyniad i newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol | (15.57) | (2.81) |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd o ganlyniad i newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig | 0.33 | (0.40) |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd o ganlyniad i brofiad o rwymedigaethau | 1.33 | 0.12 |
| Buddion net a dalwyd allan | (0.90) | (0.87) |
| **Ymrwymiad terfynol o ran buddion diffiniedig** | **27.63** | **39.82** |

| Newidiadau i werth teg asedau | Cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 £m | Cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 £m |
|---|---|---|
| **Gwerth teg agoriadol asedau** | **28.44** | **25.90** |
| Incwm o ran llog ar asedau | 0.77 | 0.54 |
| Enillion/(colledion) ar asedau'n dilyn ailfesuriadau | (2.08) | 2.18 |
| Cyfraniadau gan y cyflogwr | 0.63 | 0.53 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr | 0.20 | 0.16 |
| Buddion net a dalwyd allan | (0.90) | (0.87) |
| **Gwerth teg terfynol asedau** | **27.06** | **28.44** |

**Elw gwirioneddol ar asedau**

| | Cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 £m | Cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 £m |
|---|---|---|
| Incwm o ran llog ar asedau | 0.77 | 0.54 |
| Enillion/(colledion) ar asedau'n dilyn ailfesuriadau | (2.08) | 2.18 |
| Elw gwirioneddol ar asedau | **(1.31)** | **2.72** |

**Risgiau sy'n gysylltiedig â'r Gronfa o ran cyfrifyddu**

**Anwadalwch asedau**

Caiff y rhwymedigaethau a ddefnyddir at ddibenion cyfrifyddu eu cyfrifo gan ddefnyddio cyfradd disgownt a bennir trwy gyfeirio at arenillion bondiau corfforaethol. Os yw asedau'n tanberfformio, bydd yr arenillion hynny'n creu diffyg yn y cyfrifon. Mae'r Gronfa yn dal cyfran sylweddol o asedau twf, a disgwylir i'r rhain berfformio'n well na bondiau corfforaethol yn y tymor hir ond mae hynny'n creu anwadalwch a risg yn y tymor byr mewn perthynas â'r ffigurau cyfrifyddu.

**Newidiadau i arenillion bondiau**

Byddai gostyngiad mewn arenillion bondiau corfforaethol yn cynyddu'r gwerth a roddir ar y rhwymedigaethau at ddibenion cyfrifyddu, er y gwrthbwysir hynny i raddau gan y cynnydd yn yr asedau o ganlyniad.

**Risg o ran chwyddiant**

Mae mwyafrif y rhwymedigaethau o ran pensiwn yn gysylltiedig naill ai â chwyddiant cyflogau neu chwyddiant prisiau. Bydd disgwyliadau y bydd chwyddiant yn codi'n arwain at werth uwch i rwymedigaethau. Bydd yr asedau naill ai'n aros yr un fath neu'n cydberthyn yn llac i chwyddiant, sy'n golygu y bydd cynnydd mewn chwyddiant yn cynyddu'r diffyg.

**Disgwyliad oes**

Mae mwyafrif ymrwymiadau'r Gronfa yn ymwneud â darparu buddion yn ystod oes yr aelod ar ôl iddo/iddi ymddeol, felly bydd cynnydd mewn disgwyliad oes yn golygu cynnydd yn y rhwymedigaethau.

**Cyflogwyr sy'n ymadael**

Mae'n bosibl y bydd cyflogwr sy'n gadael y Gronfa (neu warantwr y cyflogwr) yn gorfod talu tâl ymadael er mwyn gwneud iawn am unrhyw ddiffyg mewn asedau o gymharu â'i rwymedigaethau o ran pensiwn. Os nad yw'r cyflogwr (neu'r gwarantwr) yn gallu talu'r tâl ymadael hwn, gallai'r rhwymedigaeth ddisgyn mewn rhai amgylchiadau ar gyflogwyr eraill yn y Gronfa. At hynny, wrth edrych yn ôl, mae'n bosibl na fydd yr asedau adeg ymadael mewn perthynas â 'rhwymedigaethau amddifad' yn ddigonol i ateb y rhwymedigaethau. Gall y risg hon hefyd ddisgyn ar gyflogwyr eraill yn y Gronfa. Ar hyn o bryd, cyfran fach o rwymedigaethau cyffredinol y Gronfa yw 'rhwymedigaethau amddifad'.

**Dadansoddiad o sensitifrwydd**

Isod, nodir effaith fras unrhyw newid i'r rhagdybiaethau allweddol ar werth presennol yr ymrwymiad o ran buddion diffiniedig a ariennir ar 31 Mawrth 2023, a chost amcanestynedig y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod a fydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024. Ym mhob achos, dim ond y rhagdybiaeth a grybwyllir a gaiff ei newid; mae'r holl ragdybiaethau eraill yn parhau'r un fath a chânt eu crynhoi yn Adran 1.

| **Rhagdybiaeth ynghylch Cyfradd y Disgownt**<br>**Addasiad i gyfradd y disgownt** | **+0.1% y flwyddyn** | **Ffigur sylfaenol** | **-0.1% y flwyddyn** |
|---|---|---|---|
| Gwerth presennol cyfanswm yr ymrwymiad (£m) | 27.16 | 27.63 | 28.10 |
| % y newid yng ngwerth presennol cyfanswm yr ymrwymiad | -1.70 | | 1.70 |
| Cost amcanestynedig y gwasanaeth (£m) | 0.65 | 0.67 | 0.70 |
| % y newid yn fras yng nghost amcanestynedig y gwasanaeth | -3.7 | | 3.9 |
| **Cyfradd codiadau cyffredinol mewn cyflogau**<br>**Addasiad i gyfradd y codiadau mewn cyflogau** | **+0.1% y flwyddyn** | **Ffigur sylfaenol** | **-0.1% y flwyddyn** |
| Gwerth presennol cyfanswm yr ymrwymiad (£m) | 27.69 | 27.63 | 27.60 |
| % y newid yng ngwerth presennol cyfanswm yr ymrwymiad | 0.2 | | -0.1 |
| Cost amcanestynedig y gwasanaeth (£m) | 0.67 | 0.67 | 0.67 |
| % y newid yn fras yng nghost amcanestynedig y gwasanaeth | 0.0 | | 0.0 |
| **Cyfradd y cynnydd i bensiynau a delir, rhagdybiaeth ynghylch pensiynau gohiriedig a rhagdybiaeth ynghylch cyfradd ailbrisio cyfrifon pensiwn**<br>**Addasiad i gyfradd y cynnydd mewn pensiynau** | **-1 flwyddyn** | **Ffigur sylfaenol** | **+ 1 flwyddyn** |
| Gwerth presennol cyfanswm yr ymrwymiad (£m) | 28.04 | 27.63 | 27.19 |
| % y newid yng ngwerth presennol cyfanswm yr ymrwymiad | 1.5 | | -1.6 |
| Cost amcanestynedig y gwasanaeth (£m) | 0.70 | 0.67 | 0.65 |
| % y newid yn fras yng nghost amcanestynedig y gwasanaeth | 3.9 | | -3.7 |
| **Rhagdybiaeth ynghylch marwolaethau ar ôl ymddeol**<br>**Addasiad i'r rhagdybiaeth ynghylch y mesur o oedran marw*** | **-1 flwyddyn** | **Ffigur sylfaenol** | **+ 1 flwyddyn** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwerth presennol cyfanswm yr ymrwymiad (£m) | 28.35 | 27.63 | 26.91 |
| % y newid yng ngwerth presennol cyfanswm yr ymrwymiad | 2.6 | | -2.6 |
| Cost amcanestynedig y gwasanaeth (£m) | 0.69 | 0.67 | 0.65 |
| | 3.5 | | -3.5 |
| * mae mesur o + 1 flwyddyn yn golygu rhagdybiaeth y bydd aelodau yn dilyn patrwm marwolaeth y tabl sylfaenol ar gyfer unigolyn sydd flwyddyn yn hŷn na nhw | | | |

**Amcangyfrif o draul pensiynau yn ystod cyfnodau yn y dyfodol**

| | **Cyfnod a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024** |
|---|---|
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 0.67 |
| Llog ar rwymedigaeth/(ased) o ran buddion diffiniedig net | 0.01 |
| **Amcangyfrif o gyfanswm traul pensiynau** | **0.68** |

Y lwfans ar gyfer treuliau gweinyddu sydd wedi'i gynnwys yng Nghost Gyfredol y Gwasanaeth: £0.04 miliwn
Amcangyfrif o'r gyflogres bensiynadwy dros y cyfnod: £3.13 miliwn

Cyfraniadau ar gyfer y cyfnod a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024: Amcangyfrifir y bydd cyfraniadau rheolaidd yr Awdurdod i'r Gronfa ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu hyd at 31 Mawrth 2024 yn £0.63 miliwn. At hynny, mae'n bosibl y bydd cyfraniadau ychwanegol yn dod yn ddyledus mewn perthynas ag unrhyw gamau a gymerir yn ôl disgresiwn y cyflogwr i wella buddion aelodau yn y Gronfa yn ystod y cyfnod cyfrifyddu nesaf. Hyd rhwymedigaethau wedi'u hariannu yw 17.3 o flynyddoedd.

**NODYN 31: NATUR A GRADDAU'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL**

Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw offerynnau ariannol ei hun ond mae ei weithgareddau'n golygu ei fod yn agored i dair prif risg ariannol:

- Risg o ran credyd – y posibilrwydd y gallai partïon eraill fethu â thalu symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod
- Risg o ran hylifedd – y posibilrwydd na fydd cyllid efallai ar gael i'r Awdurdod gyflawni ei ymrwymiadau i wneud taliadau
- Risg o ran y farchnad – y posibilrwydd y gallai colled ariannol godi i'r Awdurdod oherwydd newidiadau mewn mesurau megis cyfraddau llog a symudiadau yn y farchnad stoc.

Mae'r Awdurdod yn ddiddyled ac yn rhoi ei arian sydd dros ben, yn unol â'i Strategaeth Rheoli Trysorlys, mewn cyfrifon y gellir cael mynediad iddynt ar unwaith neu gyfrifon adnau byrdymor gyda banc sydd â statws credyd uchel iawn. Felly, mae wedi lleihau'r graddau y mae'n agored i'r risg o fethiant gan barti arall i ad-dalu arian a adneuwyd.

Caiff y risg o golledion o ganlyniad i fethiant cwsmeriaid i dalu'r Awdurdod ei lleihau drwy weithdrefnau rheoli dyled yr Awdurdod. Mae mwyafrif dyledwyr yr Awdurdod, yn ôl gwerth, yn gyrff cyhoeddus eraill y bernir bod ganddynt statws credyd da. (Gweler Nodyn 19: Dyledwyr Byrdymor).

Mae gan yr Awdurdod arian mewn cymysgedd o gyfrifon banc y gellir cael mynediad iddynt ar unwaith, cyfrifon adnau byrdymor a chyfrifon sy'n gofyn am rybudd penodol. Felly, mae'n agored i raddau cyfyngedig i risg o ran hylifedd. Caiff cyfraddau llog a balansiau arian parod eu hadolygu'n rheolaidd, ac ystyrir rhoi mwy o arian mewn cyfrifon adnau os bydd cyfraddau llog yn dod yn fwy ffafriol.

Nid yw'r Awdurdod yn agored i risg o ran y farchnad heblaw mewn perthynas â'i gyfran yng Nghronfa Bensiwn Powys. Mae mwy o fanylion i'w gweld yn Nodyn 30.

**NODYN 32: RHWYMEDIGAETHAU DIGWYDDIADOL**

Ni nodwyd dim yn 2022/23, nac yn 2021/22 chwaith.

**GEIRFA**

ASEDAU CYMUNEDOL: Asedau y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu dal am byth, nad oes ganddynt oes ddefnyddiol y gellir ei phennu, ac y gallai cyfyngiadau fod yn berthnasol i'r broses o'u gwaredu.

ASEDAU SEFYDLOG: Asedau diriaethol sy'n esgor ar fuddion i'r Awdurdod a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo, am gyfnod o dros flwyddyn.

CRONIADAU: Y cysyniad bod incwm yn cael ei gydnabod wrth iddo gael ei ennill a bod gwariant yn cael ei gydnabod wrth fynd iddo, ac nid wrth i arian ddod i law neu gael ei dalu.

CYNLLUN BUDDION DIFFINIEDIG: Cynllun pensiwn lle mae rheolau'r cynllun yn diffinio'r buddion yn annibynnol ar y cyfraniadau sy'n daladwy, a lle nad yw'r buddion yn gysylltiedig yn uniongyrchol â buddsoddiadau'r cynllun.

DERBYNIADAU CYFALAF: Elw nad yw'n llai na £10,000 o werthu asedau sefydlog. Gellir eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf newydd neu ad-dalu dyled. Ni ellir eu defnyddio i ariannu gwariant refeniw arferol o ddydd i ddydd.

GWARIANT CYFALAF: Gwariant ar gaffael ased sefydlog neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased sefydlog sy'n bodoli eisoes, yn hytrach na'i fod yn cynnal gwerth yr ased hwnnw'n unig.

GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF DAN STATUD: Gwariant a gaiff ei ystyried yn gyfalaf at ddibenion cyllid ond nad yw'n golygu bod y gwariant yn cael ei gario ar y fantolen fel ased sefydlog. Grantiau yw'r eitemau hyn yn gyffredinol, a gwariant ar eiddo nad yw'r Awdurdod yn berchen arno.

OES DDEFNYDDIOL: Y cyfnod y bydd yr Awdurdod yn cael buddion o ddefnyddio ased sefydlog.

PRYDLES ARIAN: Prydles sy'n trosglwyddo holl risg a gwobrwyon perchnogaeth ar ased sefydlog i'r prydlesai.

PRYDLES WEITHREDU: Prydles heblaw prydles arian.

RHWYMEDIGAETHAU/ASEDAU DIGWYDDIADOL: Mae'r rhain yn codi o ddigwyddiad yn y gorffennol, sy'n dibynnu ar ddigwyddiadau ac amseru ansicr yn y dyfodol cyn eu bod yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon.

TÂL CYFALAF: Tâl i gyfrifon refeniw gwasanaethau er mwyn adlewyrchu cost asedau sefydlog a ddefnyddir wrth ddarparu gwasanaeth.

**TALFYRIADAU:**

CIPFA Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth

LASAAC Pwyllgor Cynghori ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol (yr Alban)

# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG COPI DRAFFT O DDATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL 2022-23

**Crynodeb Gweithredol**

**Fframwaith Llywodraethiant**

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fel sefydliad yn anelu at gyrraedd safonau uchel o safbwynt llywodraethiant, ymddygiad a chydymffurfio, drwy bartneriaeth o aelodau, swyddogion, sefydliadau rhanddeiliaid ac unigolion fel yr amlinellir yn ei God Llywodraethiant Corfforaethol.

Mae'r Cod Llywodraethiant Corfforaethol yn ymgorffori'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r nodau a eglurir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn unol â hynny, bydd ein prosesau gwneud penderfyniadau'n sicrhau ein bod yn cadw'r egwyddorion canlynol wrth wraidd y broses o gynllunio a chyflawni ein gwaith, er mwyn cyfrannu i'r Nodau Llesiant.

Mae'r cyfrifoldeb am system gadarn o lywodraethiant yn gorwedd gyda'r Awdurdod Parc Cenedlaethol sy'n cynnwys 18 aelod: 12 a benodwyd o blith y saith awdurdod lleol cyfansoddol (chwech o Gyngor Sir Powys, ac un yr un o Gyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen) a chwech a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hynny'n golygu bod yr Awdurdod yn ymrwymo i'r saith egwyddor llywodraethiant da a ddiffiniwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn ei ddogfen *Delivering Good Governance in Local Government Framework 2016*. Mae'r Awdurdod wedi penderfynu mabwysiadu Fframwaith CIPFA a dull y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol.

**Ymrwymiad i fynd i'r afael â materion llywodraethiant ac i adolygu trefniadau'n gyson**

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn parhau i ganolbwyntio ar faterion llywodraethiant. Yn ystod 2022/23, cafodd cynllun gweithredu Archwilio Cymru ei integreiddio'n llawn yn rhaglen waith y Pwyllgor Archwilio a Risg ac yng nghamau gweithredu â blaenoriaeth y Gweithgor Archwilio a Risg, sy'n gallu canolbwyntio'n fwy pendant ar faterion allweddol. Mae gwaith y Pwyllgor wedi'i gefnogi ar amryw adegau yn ystod y flwyddyn gan Ymgynghorydd Llywodraethiant. Mae'r mewnbwn ychwanegol hwn wedi'i hwyluso gan Lywodraeth Cymru yn rhan o'i chymorth parhaus i'r Awdurdod yn dilyn adroddiad Archwilio Cymru ym mis Mawrth 2022. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo'n llawn i fynd i'r afael â'r materion sy'n weddill.

**Barn gyffredinol ynghylch lefel y sicrwydd ac ynghylch a yw trefniadau'r Awdurdod yn addas i'w diben**

Mae'n cynnwys barn yr archwilwyr mewnol (TIAA), yr archwilwyr allanol (Archwilio Cymru) a'r Awdurdod.

Barn yr archwilwyr mewnol

*"TIAA is satisfied that, for the areas reviewed during the year, Bannau Brycheiniog National Park Authority has reasonable and effective control processes in place.*

*No audit work has been undertaken of governance and risk management arrangements during the year while an ongoing piece of work has been undertaken by the Authority to review and revise the arrangements with the support of an appointed advisor. TIAA has had no involvement in this review or the adequacy and appropriateness of any new arrangements.*

*This opinion is based solely on the matters that came to the attention of TIAA during the course of the internal audit reviews carried out during the year and is not an opinion on all elements of the risk management, control and governance processes or the ongoing financial viability or your ability to meet financial obligations which must be obtained by the Bannau Brycheiniog National Park Authority from its various sources of assurance."*

Barn yr archwilwyr allanol

Cyhoeddodd Archwilio Cymru ei Grynodeb Archwilio Blynyddol ar gyfer 2022 ar 31 Mawrth 2023, sy'n nodi gwaith arfaethedig ar gyfer 2022-23 ynghylch amrywio ffynonellau incwm a mynd ar drywydd argymhellion statudol.

Aeth llythyr oddi wrth Archwilio Cymru ynghylch Cynnydd o ran cyflawni Argymhellion Statudol i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ar 21 Gorffennaf 2023. Mae'r llythyr yn rhoi sylw i dri mater craidd:

- Cynnydd wrth gyflawni Cynllun Gweithredu Archwilio Cymru;
- Gwaith i gryfhau llywodraethiant a'r broses o wneud penderfyniadau;
- Capasiti a chydnerthedd sefydliadol i gyflawni gwelliant.

Mae'r llythyr at y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn crynhoi barn Archwilio Cymru:

*"Rydym wedi dod i'r casgliad bod yr Awdurdod mewn lle gwell na blwyddyn yn ôl ac mae yna gamau dechreuol clir o adferiad. Fodd bynnag, mae rhai heriau sylweddol yn parhau wrth symud ymlaen sy'n gwneud y gobaith o wella yn y tymor byr yn ansicr."*

Barn yr Awdurdod

Cydnabyddir bod yr Awdurdod yn parhau i wynebu nifer o risgiau brys, a bod angen iddo barhau i fynd i'r afael â nifer o risgiau o'r fath, os yw'n bwriadu parhau i wella.

Heb os, mae dwy her sylweddol yn atal cynnydd o safbwynt mynd i'r afael â risgiau. Yr her gyntaf yw sefyllfa ariannol y sefydliad. Ar hyn o bryd, mae gan yr Awdurdod gyllideb sy'n pwyso'n drwm ar gronfeydd wrth gefn ac nad yw'n gynaliadwy y tu hwnt i 2023/24. Bydd capasiti newydd ar ffurf y Prif Swyddog Cyllid ac Adnoddau / Adran 151 a ddechreuodd ar ei swydd ar 1 Tachwedd 2023 yn allweddol i waith cynllunio ariannol ac i reolaeth ariannol yn dilyn cyfnod hir â bylchau sylweddol. Fodd bynnag, oherwydd chwyddiant uchel, llawer o bwysau ar y gyllideb, a setliad arian gwastad gan Lywodraeth Cymru, mae'r her yn un fawr. Yr ail her yw capasiti sefydliadol. Mae'r Awdurdod yn ceisio cyflawni rhaglen o newid sefydliadol ac o feithrin capasiti, ac mae ganddo fylchau sylweddol yng nghyd-destun cyllideb sy'n crebachu. Mae cydberthnasau gwaith effeithiol ar waith rhwng y Prif Weithredwr a'i thîm a'r Cadeirydd a'r Aelodau, ond mae mynd i'r afael â maint y dasg gydag adnoddau cyfyngedig iawn yn eithriadol o anodd. Fodd bynnag, mae yna benderfynoldeb amlwg i wynebu'r her honno ac i ehangu sylfaen incwm yr Awdurdod er mwyn llenwi'r bylchau. Yn ystod y cyfnod pontio, fodd bynnag, mae llawer o'r staff dan straen ac mae gwelliannau i brosesau'n cael eu gwireddu'n araf.

Er hynny, ceir rhai arwyddion pwysig a gobeithiol o sefydliad a all addasu a ffynnu. Ym mis Ebrill 2023, cyhoeddodd a mabwysiadodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 'Dyfodol Y Bannau', sef Cynllun Rheoli uchelgeisiol ac ysbrydoledig tu hwnt sydd wedi ennyn cefnogaeth eang. Ar yr un pryd cafodd brand arloesol, ffres, hawdd ei farchnata sy'n croesawu diwylliant a hunaniaeth Gymreig y Parc, ynghyd â dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar weledigaeth, eu lansio, a ddylai fod yn sail i lwyddiant.

Yn ogystal, mae partneriaid allweddol wedi dechrau ymgysylltu mewn ffordd newydd â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, ac wrth wraidd popeth a wna'r sefydliad y mae tîm medrus ac uchelgeisiol o staff sy'n benderfynol o gyflawni newid cadarnhaol a gwirioneddol er mwyn i fyd natur a chymunedau allu ffynnu yn y Parc.

**Llofnodion**



Canon Aled Edwards (Cadeirydd)
Dyddiad:



Catherine Mealing-Jones (Prif Weithredwr)
Dyddiad:

## Nodi trefniadau allweddol ar gyfer llywodraethiant

Ceir nifer o systemau, prosesau a pholisïau allweddol yn yr Awdurdod, sy'n darparu corff o dystiolaeth sy'n ofynnol i hybu asesiad parhaus o effeithiolrwydd trefniadau'r Awdurdod ar gyfer llywodraethiant.

Mae'r Awdurdod wedi nodi 24 o feysydd sicrwydd a'r modd y maent yn gysylltiedig ag egwyddorion allweddol Llywodraethiant Da (CIPFA).

- *Egwyddor 1*: ymddwyn gydag integriti, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu trefn y gyfraith.
- *Egwyddor 2*: gweithredu mewn modd agored ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn modd cynhwysfawr.
- *Egwyddor 3*: diffinio canlyniadau yn nhermau manteision cynaliadwy o safbwynt economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.
- *Egwyddor 4*: penderfynu ar yr ymyriadau sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni cynifer ag sy'n bosibl o'r canlyniadau a fwriadwyd.
- *Egwyddor 5*: datblygu capasiti'r corff, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion sy'n rhan ohono.
- *Egwyddor 6*: rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.
- *Egwyddor 7*: gweithredu arferion da o ran tryloywder, cyflwyno adroddiadau ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.

Mae'n ofynnol i reolwyr gwasanaeth gymryd cyfrifoldeb cyffredinol am ddarparu eu gwasanaethau'n unol â'r Cod Llywodraethiant Corfforaethol, ac mae'n ofynnol iddynt ddarparu datganiadau ynghylch sicrwydd ar gyfer y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt.

Mae rheolwyr gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am bennu'r Swyddogaeth Goruchwyliaeth Gorfforaethol, sydd ar wahân i waith cyflawni rheng flaen ac sy'n rhoi sicrwydd ynghylch y canlynol:

- Prosesau corfforaethol ar waith: bodolaeth a natur gyfredol polisïau a gweithdrefnau allweddol.
- Effeithiolrwydd: effeithiolrwydd polisïau a gweithdrefnau allweddol.

| | **Prosesau corfforaethol ar waith** | **Effeithiolrwydd** |
|---|---|---|
| | *Sicrwydd Sylweddol:* mae polisïau a phrosesau wedi'u rhoi ar waith, maent yn ymdrin â gofynion y Cod Llywodraethiant Corfforaethol ac maent yn gyfredol. | *Sicrwydd Sylweddol:* mae polisïau a gweithdrefnau yn gweithio'n effeithiol ar draws yr Awdurdod. |
| | *Sicrwydd Rhesymol:* mae polisïau a phrosesau wedi'u rhoi ar waith, ac maent yn ymdrin â mwyafrif gofynion y Cod Llywodraethiant Corfforaethol. | *Sicrwydd Rhesymol:* efallai fod rhai enghreifftiau o aneffeithiolrwydd neu ddiffyg cydymffurfio ar draws yr Awdurdod, ond nid ydynt yn arwyddocaol. |

| | | |
|---|---|---|
| | *Sicrwydd Cyfyngedig:* gellid ystyried nad yw polisïau a phrosesau'n ddigon cadarn, yn ddigon cyson neu'n ddigon cyfredol. | *Sicrwydd Cyfyngedig:* ceir enghreifftiau arwyddocaol o aneffeithiolrwydd neu ddiffyg cydymffurfio ar draws yr Awdurdod, sy'n risg o safbwynt cyflawni amcanion yn effeithiol. |
| | *Dim Sicrwydd:* mae polisïau a gweithdrefnau'n absennol neu'n ddiffygiol i raddau sy'n arwyddocaol. | *Dim Sicrwydd:* mae polisïau a gweithdrefnau'n aneffeithiol, a cheir tystiolaeth bod hynny wedi effeithio'n arwyddocaol ar berfformiad o safbwynt cyflawni amcanion. |

## Gwerthuso effeithiolrwydd llywodraethiant

### Fframwaith Llywodraethiant

- Egwyddorion 6 a 7

Mae gan yr Awdurdod God Llywodraethiant Corfforaethol, ac er bod y ddogfen yn dal yn addas i'w diben mae angen ei diwygio i adlewyrchu'r Cynllun Dirprwyo sydd wedi'i ddiweddaru, felly dim ond sicrwydd rhesymol y mae'n ei gynnig. Gyda chymorth gan Ymgynghorydd Llywodraethiant, mae Fframwaith Sicrwydd ar gyfer Llywodraethiant yn cael ei ddatblygu (disgwylir y bydd yn barod yn ystod gwanwyn 2024) a fydd yn sicrhau bod trefniadau llywodraethiant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Sicrwydd cyfyngedig y mae hynny'n ei gynnig ar hyn o bryd, oherwydd bod angen darparu hyfforddiant a sefydlu'r fframwaith o hyd.

Caiff Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ei baratoi bob blwyddyn a'i gyhoeddi gyda'r Datganiad o Gyfrifon.

| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Rhesymol* | Effeithiolrwydd: | *Cyfyngedig* |
|---|---|---|---|

### Fframwaith Cyfreithiol

- Egwyddor 1

Mae gan yr Awdurdod fframwaith cyfreithiol (Rheolau Sefydlog, Polisïau a Gweithdrefnau) sy'n egluro'r rheolau a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan yr Aelodau a'r Swyddogion. Mae'r fframwaith yn nodi sut y bydd yr Awdurdod yn defnyddio ei bwerau er budd y gymuned, gan barchu gofynion deddfwriaeth a'r cyfrifoldebau cyffredinol a roddir iddo.

| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Sylweddol* | Effeithiolrwydd: | *Cyfyngedig* |
|---|---|---|---|

### Gwerthoedd Cyffredin

- Egwyddor 1

Mae gwerthoedd newydd ar waith, sydd wedi'u datblygu gan y staff a gyda'r staff, ac maent yn cyd-fynd â brand newydd yr Awdurdod. Nid ydynt wedi'u sefydlu yn llawn eto ac mae angen iddynt gael eu hadlewyrchu yn null yr Awdurdod o reoli perfformiad ac yn ei ffyrdd o weithio.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn egluro sut y caiff dyletswyddau statudol eu cyflawni yng nghyswllt Deddf Cydraddoldeb 2010, ac mae'n darparu man cychwyn clir i sicrhau bod gwasanaethau o safon uchel yn cael eu darparu'n deg ar draws pob sector o safbwynt cymunedau, grwpiau defnyddwyr, busnesau ac ymwelwyr. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i hyrwyddo amrywiaeth, cynwysoldeb a mynediad cyfartal ac i ddileu anghydraddoldebau ym mhob agwedd ar ei waith.

Mae Strategaeth Lesiant ar y gweill, a mynychodd Swyddogion weithdy ym mis Mawrth 2023 er mwyn cyfrannu at y gwaith o'i datblygu. Cafodd sesiynau rhithiol ychwanegol eu cynnig i Swyddogion er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cyfrannu.

| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Rhesymol* | Effeithiolrwydd: | *Cyfyngedig* |
|---|---|---|---|

**Fframwaith Polisi**

- Egwyddorion 3, 4 a 5

Mae'r fframwaith polisi trosfwaol ar gyfer ardal ddaearyddol y Parc Cenedlaethol (y Cynllun Rheoli) ar waith a bydd yn cael ei adolygu yn 2027/28. Mae Cynllun Blynyddol wedi'i lunio sy'n ceisio nodi meysydd allweddol y mae angen i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wneud cynnydd ynddynt er mwyn ategu'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Rheoli. Mae'r Cynllun Blynyddol yn nodi natur hollbwysig eleni o safbwynt datblygu capasiti sefydliadol er mwyn ymgorffori egwyddorion y Cynllun Rheoli yn llawn. Nid yw'r Cynllun Blynyddol yn gynllun busnes llawn ac mae llunio cynllun busnes neu gynllun corfforaethol ar gyfer blynyddoedd dilynol, sy'n cyd-fynd â'r gyllideb, yn allweddol. Er bod gan yr Awdurdod Gynllun Datblygu Lleol, cafodd ei fabwysiadu ym mis Rhagfyr 2013 ac mae'n ymdrin â chyfnod sy'n ymestyn hyd at 2022. Mae angen i'r Awdurdod ystyried a ddylai ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol arall a fyddai'n fodd i roi'r Cynllun Rheoli newydd ar waith, ynteu a ddylai weithio drwy'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig newydd (mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn aelod o dri – canolbarth Cymru, de-orllewin Cymru a de-ddwyrain Cymru) ar Gynlluniau Datblygu Strategol. Bydd yn cymryd amser i ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol neu dri Chynllun Datblygu Strategol, felly bydd y bwlch rhwng y Cynllun Datblygu Lleol presennol a'r Cynllun Rheoli yn tyfu'n gynyddol.

Mae'r Awdurdod wedi datblygu nifer o ddatganiadau sefyllfa i egluro ei ddyhead a'i fwriad o ran y newid yn yr hinsawdd a rheoli tir ac o ran economi wledig gynaliadwy, ac mae wedi datblygu Datganiad Sefyllfa ar Dystiolaeth sy'n creu'r sylfaen ar gyfer datblygu pob polisi. Mae'r cyfan wedi'i gyhoeddi ar-lein.

| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Rhesymol* | Effeithiolrwydd: | *Cyfyngedig* |
|---|---|---|---|

**Gwneud penderfyniadau, dirprwyo dyletswyddau, rolau a chyfrifoldebau**

- Egwyddorion 1, 6 a 7

Caiff unrhyw agendâu, adroddiadau a chofnodion eu cyhoeddi ar-lein er mwyn dangos a chofnodi penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau'r Awdurdod ac er mwyn cyhoeddi'r penderfyniadau hynny'n briodol.

Mae'r Awdurdod yn deall rolau a chyfrifoldebau'r Aelodau i gynllunio, rhedeg, monitro a datblygu busnes yr Awdurdod, a rolau a chyfrifoldebau'r Swyddogion i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol a gwneud y defnydd gorau posibl o'r pwerau llawn sydd ar gael er budd y Parc, dinasyddion, cymunedau a rhanddeiliaid eraill.

Mae gan yr Awdurdod Gynllun Dirprwyo clir (a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2022) ac mae wedi dechrau ar waith i ddatblygu ei fodel gweithredu a'i ddyluniad sefydliadol. Cafodd gweithdy ei gynnal gyda'r Aelodau ym mis Mai 2023 i symud y gwaith hwn yn ei flaen. Mae'r Awdurdod yn dal i aeddfedu o safbwynt ei ddull o ymdrin â dulliau dirprwyo ac atebolrwydd yn y sefydliad, ac mae'n rhoi sylw i'r broses hon drwy ddatblygu fframwaith a model gweithredu ar gyfer llywodraethiant a sicrwydd.

Mae gan yr Awdurdod Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig (Prif Weithredwr), Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro, sydd i gyd yn swyddi statudol. Ymddiswyddodd y Swyddog Adran 151 ym mis Mawrth 2023, a chafodd y swydd ei chyflawni drwy gytundeb dirprwyo ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, a oedd ar waith rhwng mis Ebrill

2023 ac 1 Tachwedd 2023 pan ddechreuodd Prif Swyddog Cyllid ac Adnoddau/Swyddog Adran 151 pwrpasol ar ei swydd.

| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Rhesymol* | Effeithiolrwydd: | *Cyfyngedig* |
|---|---|---|---|

**Archwilio mewnol, y Pwyllgor Archwilio a Risg, a chraffu gan yr Aelodau**

- Egwyddorion 6 a 7

Caiff y gwaith hwn ei gyflawni drwy gontract â TIAA. Mae'r cylch gwaith ar gyfer archwilio mewnol yn mynnu bod gwaith yn cael ei gyflawni'n unol â safonau a nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol. Mae TIAA yn darparu barn archwilio yr adroddir yn ei chylch wrth yr Awdurdod.

Mae gan yr Awdurdod Bwyllgor Archwilio a Risg effeithiol sy'n gweithredu yn unol â chanllawiau CIFPA. Cafodd Gweithgor Archwilio a Risg ei sefydlu ym mis Rhagfyr 2022 i helpu i weithredu'r argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru, nad oeddent wedi'u cyflawni.

Mae Rheolau Sefydlog ar waith, sy'n sicrhau her adeiladol a thrafodaeth ynghylch polisïau, perfformiad a phenderfyniadau.

| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Sylweddol* | Effeithiolrwydd: | *Rhesymol* |
|---|---|---|---|

**Ymddygiad**

- Egwyddor 1

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol Cenedlaethol. Mae'r Swyddogion a'r Aelodau yn ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad ac yn arwain diwylliant o weithredu er lles y cyhoedd.

Mae gan yr Awdurdod Bolisi Datrys Anghydfod yn Lleol, ac ni chafwyd unrhyw achosion yn ystod 2022-23 pan fu'n rhaid defnyddio'r weithdrefn hon.

Mae'r Pwyllgor Safonau yn gyfrifol am hyrwyddo safonau uchel o ran ymddygiad gan yr Aelodau a'r Swyddogion. Mae'n gwneud hynny drwy gynghori ynghylch y Codau Ymddygiad i Aelodau a Swyddogion a thrwy hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ohonynt. Mae'r ddau God wedi cael eu mabwysiadu gan yr Awdurdod. Cyfarfu'r Pwyllgor Safonau ddwywaith yn ystod y flwyddyn (ym mis Hydref 2022 a mis Chwefror 2023). Ni ddaeth unrhyw achosion gerbron y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Mae dyletswydd statudol ar y Pwyllgor i baratoi adroddiad blynyddol i'r Awdurdod. Disgwylir i'r adroddiad fod yn barod ym mis Rhagfyr 2023.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Sylweddol* | Effeithiolrwydd: | *Rhesymol* |

**Datgan buddiannau, rhoddion a lletygarwch**

- Egwyddor 1

Mae'r Awdurdod yn cynnal Cofrestrau Buddiannau blynyddol ar gyfer yr Aelodau a'r Swyddogion, a chaiff datganiadau'r Aelodau yng nghyfarfodydd y pwyllgorau eu cofnodi hefyd drwy ddull wedi'i awtomeiddio. Caiff negeseuon atgoffa blynyddol eu hanfon at yr Aelodau a'r Swyddogion.

Mae'r Awdurdod yn cynnal cofrestrau rhoddion a lletygarwch ar gyfer yr Aelodau a'r Swyddogion er mwyn sicrhau bod trefniadau diogelu priodol ar waith.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Sylweddol* | Effeithiolrwydd: | *Cyfyngedig* |

**Sefydlu, hyfforddi a datblygu Aelodau a Swyddogion**

- Egwyddor 5

Mae'r Aelodau a'r Swyddogion yn cael hyfforddiant sefydlu i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Cafodd yr Aelodau a benodwyd ym mis Mehefin 2022 a mis Ionawr 2023 hyfforddiant sefydlu ar-lein.

Mae'r staff allweddol yn aelodau o gyrff proffesiynol perthnasol ac maent yn gallu cael mynediad i gymorth personol a phroffesiynol ac i ddatblygiad proffesiynol parhaus er mwyn hwyluso eu gwaith a'u helpu i gynnal safonau proffesiynol.

Mae datblygu'r Aelodau wedi'i nodi yn faes â blaenoriaeth ar gyfer y Gweithgor Archwilio, a chafodd yr Aelodau hyfforddiant (a hwyluswyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) ynghylch Cwestiynu Effeithiol, Rôl Craffu, a Sgiliau Cadeirio. Mae Fframwaith Datblygu Aelodau ar waith ond mae'n bryd ei adolygu (bwriedir gwneud hynny yn ystod gwanwyn 2024) er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Cafodd y system hyfforddiant ar gyfer National Parks UK yn ei gyfanrwydd, sef ELMS, ei thynnu oddi ar y we er mwyn ei diweddaru, a oedd yn golygu hefyd bod yr holl gyrsiau hyfforddiant wedi'u diweddaru. Bu'r tîm Adnoddau Dynol yn ymwneud â diweddaru cynnwys y cyrsiau ac yn ymwneud â dylunio'r rhestr newydd o gyrsiau gorfodol ar gyfer y staff i gyd.
Mae'r holl hyfforddiant ynghylch iechyd a diogelwch a'r holl hyfforddiant angenrheidiol nad oedd wedi'i ddiweddaru yn brydlon oherwydd COVID wedi cael ei ddiweddaru. Rhoddwyd blaenoriaeth i sicrhau bod y Timau Wardeiniaid yn gymwys a'u bod yn defnyddio'r holl offer yn ddiogel. Mae'r Awdurdod yn parhau i gynorthwyo staff i ddysgu Cymraeg, ac eleni trefnodd wersi Cymraeg wythnosol wyneb yn wyneb iddynt. Yn sgil ei ymdrechion, enillodd yr Awdurdod y wobr 'Cyflogwr y Flwyddyn' yn seremoni wobrwyo flynyddol Dysgu Cymraeg.

Ni chafodd Adolygiadau Datblygiad Personol yr Aelodau eu cynnal yn unol â'r disgwyl oherwydd problemau'n ymwneud â chapasiti, a byddant yn cael eu cynnal yn ystod hydref 2023. Bydd canfyddiadau'r adolygiadau hynny'n helpu i ddatblygu cynlluniau hyfforddiant i'r Aelodau. Cafodd adolygiadau 360 yn dilyn cyfarfodydd pwyllgorau eu treialu am gyfnod byr, ond nid oeddent yn llwyddiannus gan mai nifer fach o bobl a ddewisodd eu cwblhau.

Caiff manylion am bresenoldeb yr Aelodau eu cofnodi a'u cyhoeddi'n flynyddol ynghyd â manylion unrhyw gydnabyddiaeth ariannol. Cyfartaledd y gyfradd presenoldeb ar gyfer y flwyddyn oedd 70%, sy'n dangos gwelliant mawr mewn presenoldeb o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (59%). Cafodd y cyfarfodydd i gyd eu cynnal ar-lein drwy Microsoft Teams, a mabwysiadodd yr Aelodau Bolisi Cyfarfodydd Aml-leoliad ym mis Medi 2022.

Yn dilyn ymadawiad pedwar Aelod yn 2022 a oedd wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru, cafwyd cyfnod o tua chwe mis pan oedd y swyddi hyn yn wag. Cafodd diwygiad i'r Cynllun Dirprwyo ei gyhoeddi ar-lein er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau posibl o ran cael cworwm.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Rhesymol* | Effeithiolrwydd: | *Cyfyngedig* |

**Rheoli risg**

- Egwyddor 6

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael adroddiadau bob chwarter ynghylch y Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r Gofrestr Risg Gyfreithiol.

Er bod rhywfaint o gynnydd da wedi'i wneud o ran datblygu Fframwaith a Pholisi Risg newydd, mae rhagor o waith i'w wneud eto i fabwysiadu'r Fframwaith, sy'n cynnwys datblygu datganiad ynghylch parodrwydd i dderbyn risg ac ymgorffori gwaith rheoli risg yn llawn yn y sefydliad. Cafodd gweithdy ei gynnal gyda'r Aelodau ym mis Chwefror 2022 i drafod y prif risgiau corfforaethol a'r dull gweithredu cyffredinol, ac mae hwnnw'n llywio'r gwaith. Fodd bynnag, nid oes swyddog pwrpasol yn gyfrifol am adrodd ynghylch risgiau corfforaethol a'u rheoli, ac mae hynny'n effeithio ar gynnydd ac effeithiolrwydd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Rhesymol* | Effeithiolrwydd: | *Cyfyngedig* |

**Rheoli perfformiad**

- Egwyddorion 2, 3, 4 a 7

Mae'r Swyddogion yn darparu adroddiad ynghylch cynnydd o ran y Cynllun Blynyddol i bob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, ond ar hyn o bryd nid yw'r adroddiad yn cael ei integreiddio ag adroddiadau ariannol. Yn ogystal, adroddir o dro i dro ynghylch cyllid prosiectau ac ynghylch gwybodaeth am gynnydd.
Nid oes unrhyw swyddog pwrpasol yn gyfrifol am y system rheoli perfformiad, ac mae'r prosesau yn wan. Ceir enghreifftiau clir lle'r effeithiwyd ar berfformiad o ganlyniad, ac mae'r Awdurdod yn gweithio i fynd i'r afael â hynny.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Cyfyngedig* | Effeithiolrwydd: | *Cyfyngedig* |

**Trefniadau atal twyll a llygredd**

- Egwyddor 6

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer atal twyll a llygredd wedi'u sefydlu ar draws y sefydliad, a bydd yn ymchwilio i dwyll a amheuir neu a nodir.

Cafodd hyfforddiant i'r Swyddogion ynghylch atal twyll a llygredd ei nodi yn yr archwiliad o gyfrifon ar gyfer 2021-22. Nid yw'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau o hyd, a rhoddir sylw iddo yn y cynllun ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Cyfyngedig* | Effeithiolrwydd: | *Cyfyngedig* |

**Trefniadau chwythu'r chwiban**

- Egwyddorion 1 a 6

Ni chafodd adolygiad arfaethedig o'r polisi chwythu'r chwiban ei gynnal (fel y nodwyd yn Natganiad Llywodraethiant Blynyddol 2021-22) oherwydd cyfyngiadau ar gapasiti.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Cyfyngedig* | Effeithiolrwydd: | *Cyfyngedig* |

**Seilwaith a strategaeth TGCh**

- Egwyddorion 6 a 7

Mae strategaethau a pholisïau'n ymwneud â seilwaith TGCh ar waith (*Strategaeth Dechnoleg a Digidol 2021-26, Polisi Defnyddwyr TG, Polisi Ffonau Symudol*). Fodd bynnag, mae methiant staff i ddilyn y polisïau'n risg o hyd nes y bydd polisi gweithio hybrid yn cael ei weithredu.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Sylweddol* | Effeithiolrwydd: | *Cyfyngedig* |

**Llywodraethiant effeithiol yng nghyswllt gwybodaeth**

- Egwyddor 6

Mae'r Awdurdod yn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer llywodraethiant yng nghyswllt gwybodaeth wedi'u sefydlu ar draws y sefydliad, ac mae wedi ymrwymo i ymchwilio i achosion a amheuir neu a nodir o weithredu'n groes i'r trefniadau.

Mae Polisi Diogelu Data ar waith ac mae Swyddog Diogelu Data dynodedig ar gael.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Rhesymol* | Effeithiolrwydd: | *Rhesymol* |

**Mynediad i wybodaeth**

- Egwyddorion 2 a 7

Mae'r Awdurdod yn sicrhau tryloywder drwy ddarparu mynediad priodol a chyfreithlon i wybodaeth. Mae Cynllun Cyhoeddi ar gael ar-lein ac mae'n bryd ei adolygu. Mae Datganiad Preifatrwydd ar gyfer Gwasanaethau Cynllunio ar gael ar-lein.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Cyfyngedig* | Effeithiolrwydd: | *Cyfyngedig* |

**Rheolaeth ariannol**

- Egwyddorion 4 a 6

Mae'r Awdurdod yn adolygu ac yn diweddaru ei Safonau Ariannol a'i Reolau Sefydlog ynghylch Contractau yn rheolaidd. Diben y rheini yw darparu fframwaith ariannol a chaffael y gall yr Awdurdod weithredu oddi mewn iddo. Bydd y rhain yn cynorthwyo'r Awdurdod i sicrhau:

- Y cydymffurfir â deddfwriaeth.
- Bod asedau'r Awdurdod yn cael eu diogelu.

- Bod yr arian sydd ar gael yn cael ei wario'n ddoeth ac yn effeithlon.
- Bod camau priodol yn cael eu cymryd i gynhyrchu incwm.
- Bod y gwerth gorau am arian yn cael ei sicrhau.

Mae'r Datganiad o Gyfrifon Drafft a lofnodwyd ar gyfer 2022-23 wedi'i gyhoeddi ar-lein. Mae'r broses o archwilio'r cyfrifon hynny i fod i ddechrau ym mis Tachwedd 2023.

Cafodd y gyllideb ar gyfer 2023-24 ei chymeradwyo gan yr Aelodau ar 10 Mawrth 2023, a chaiff adroddiadau chwarterol eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad.

Caiff pob penderfyniad ei wneud yn gyhoeddus (ac eithrio'r rhai y bernir eu bod yn esempt dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972).

| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Rhesymol* | Effeithiolrwydd: | *Rhesymol* |
|---|---|---|---|

**Gweithio mewn partneriaeth, ymgynghori, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid**

- Egwyddor 7

Ymgynghorodd yr Awdurdod yn eang ynghylch datblygu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Caiff y broses hon ynghyd ag ymateb yr Awdurdod iddi eu hamlinellu ar ei wefan.

Ers cyhoeddi 'Dyfodol Y Bannau', mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi parhau i ddatblygu trefniadau gweithio mewn partneriaeth er mwyn hybu'r gwaith o gyflawni'r Cynllun. Mae'r Awdurdod wedi ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid sy'n cynnwys, ymhlith eraill, cynghreiriaid yn y diwydiant amaeth gan barhau i gwrdd a chydweithio â Chyfeillion Bannau Brycheiniog a Phartneriaeth yr Amgylchedd Hanesyddol.

Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda nifer o gyrff allanol, gan helpu i wella gwerth am arian a chyfathrebu â grwpiau diddordeb eraill er mwyn cyflawni prosiectau cyffredin:

- Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gweithio ar draws y Parc Cenedlaethol a theuluoedd tirweddau dynodedig yn rhan o Barciau Cenedlaethol Cymru, National Parks UK, y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol a Tirweddau Cymru.
- Mae'r Awdurdod yn cadeirio'r Bwrdd Awyr Dywyll, sy'n bartneriaeth, er mwyn hybu statws y Parc fel gwarchodfa awyr dywyll ryngwladol ac er mwyn sicrhau manteision tywyllwch i ardal y Parc.
- Mae'r Awdurdod yn ymwneud yn agos â'r gymuned o fusnesau twristiaeth ac yn rhedeg cynllun llysgenhadon a digwyddiadau i gefnogi'r cydberthnasau hyn a'u rôl o safbwynt cyflawni Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.

Mae strategaeth cynnwys cymunedau ar gael, a bydd yn cael ei diweddaru ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Mae gwaith mapio rhanddeiliaid wedi'i ddatblygu ar sail cenadaethau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, a bydd strategaeth ymgysylltu'n cael ei datblygu.

Mae gan yr Awdurdod Gynllun Siarad yn Gyhoeddus. Caiff pob un o gyfarfodydd y pwyllgorau eu gweddarlledu, ac maent ar gael i'w gwylio ar-lein.

| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Rhesymol* | Effeithiolrwydd: | *Cyfyngedig* |
|---|---|---|---|

**Rheoli asedau**

- Egwyddorion 4 a 6

Mae cynnydd da wedi'i wneud o safbwynt rheoli asedau, ond mae dull gweithredu'r Awdurdod yn dal i aeddfedu er mwyn sicrhau bod pob ased yn cydymffurfio â'r gofynion, yn gynaliadwy, yn addas i'w ddiben ac yn hybu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau'r Awdurdod a chyflawni ei amcanion strategol.

| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Cyfyngedig* | Effeithiolrwydd: | *Cyfyngedig* |
|---|---|---|---|

**Sylwadau, canmoliaeth a chwynion**

- Egwyddorion 1, 2, 6 a 7

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod adborth yn adnodd gwerthfawr o safbwynt gwella profiadau dinasyddion a defnyddwyr a dylanwadu ar y modd y caiff gwasanaethau eu dylunio a'u darparu i'r dyfodol.

Adroddir bob chwarter wrth y Pwyllgor Archwilio a Risg ynghylch sylwadau a chanmoliaeth.

Yn 2022-23, daeth 21 o gŵynion i law. Cafodd 1 ohonynt ei chadarnhau a chafodd 1 arall ei chadarnhau'n rhannol. Ni chafodd y gweddill eu cadarnhau o gwbl.

Mae gweithdrefn ddiwygiedig yn cael ei rhoi ar waith er mwyn cofnodi cwynion a chanmoliaeth yn well ac er mwyn gwella amserau ymateb.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Rhesymol* | Effeithiolrwydd: | *Cyfyngedig* |

**Rheoli rhaglenni a phrosiectau**

- Egwyddorion 4 a 5

Mae bwrdd rhaglenni a dull o reoli rhaglenni ar waith, ond nid oes Swyddog arweiniol pwrpasol ar gael ac mae camau i'w cymryd o hyd i roi prawf ar y dull gweithredu a'i sefydlu.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Rhesymol* | Effeithiolrwydd: | *Cyfyngedig* |

**Iechyd a diogelwch**

- Egwyddor 6

Mae'r rhan fwyaf o'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n ofynnol ar waith, ond mae angen diweddaru ac adolygu'r System Rheoli Iechyd a Diogelwch er mwyn adlewyrchu strwythur newydd a threfniadau gweithio newydd y sefydliad (gweithio gartref a gweithio hybrid).

Mae systemau cyfredol yn cael eu gweithredu, ond rydym yn cydnabod bod angen sesiynau diweddaru a hyfforddi ar draws y sefydliad er mwyn sefydlu ein systemau mewnol a diwallu anghenion y sawl y mae angen hyfforddiant penodol arnynt.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr wedi mynychu hyfforddiant penodol yn unol â'r cyngor a gafwyd, ac mae'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch wedi dechrau blaenoriaethu camau gweithredu (gweithdrefn gwagio safleoedd pe bai tân, Swyddogion Cymorth Cyntaf, ac achrediad yr Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur wedi'i adnewyddu).

Rydym wedi crynhoi camau gweithredu o'n harchwiliadau iechyd a diogelwch, ac rydym yn gwneud cynnydd er mwyn rhoi sylw i'r pethau hyn ar gyfer ein hadeiladau a'n hasedau. Rydym yn gweithio gyda'r Tîm TG i fapio systemau mwy effeithlon ar gyfer adrodd a thracio, sy'n cofnodi'n well y gwaith a wnawn ar reoli risg ac ar adrodd ynghylch digwyddiadau.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Rhesymol* | Effeithiolrwydd: | *Cyfyngedig* |

**Caffael**

- Egwyddorion 6 a 7

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod trefniadau caffael effeithiol wedi'u sefydlu er mwyn ei alluogi i ddangos arfer da, cydymffurfio â deddfwriaeth, sicrhau gwerth am arian a sicrhau atebolrwydd i'r cyhoedd.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Rheolau Sefydlog diwygiedig ynghylch Contractau ac mae wrthi'n awtomeiddio gweithdrefnau i sicrhau y cydymffurfir yn gyson â'r gofynion.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Rhesymol* | Effeithiolrwydd: | *Rhesymol* |

**Cynllunio'r gweithlu a strategaeth ynghylch y gweithlu**

- Egwyddorion 4 a 5

Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi bod yn arwain proses o ddatblygu sefydliadol, er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o bobl sydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad gofynnol i gyflawni amcanion strategol yr Awdurdod yn effeithlon ac yn effeithiol. Cydnabyddir bod adnoddau a chapasiti'n faterion o bwys, ac mae'r risg yn y maes hwn yn cynyddu. Mae'r Awdurdod wedi cynnwys staff yn y broses o sicrhau bod lles wrth wraidd camau i ymgysylltu â'r gweithlu a datblygu'r gweithlu, a chynhaliodd ddigwyddiad lles a oedd yn agored i bob aelod o staff ym mis Mawrth 2023.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prosesau corfforaethol ar waith: | *Cyfyngedig* | Effeithiolrwydd: | *Cyfyngedig* |

## Casgliad

Mae'r Awdurdod yn cydnabod yr heriau a nodir uchod ac mae'n rhoi cynlluniau ar waith i ymdrin â'r risgiau mwyaf sylweddol o ran llywodraethiant. At ei gilydd, gallwn gymryd sicrwydd rhesymol ynghylch trefniadau ar gyfer llywodraethiant, gan gydnabod bod mwy o waith i'w wneud i sefydlu'r gwelliannau a gaiff eu symud yn eu blaen.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i fonitro ei fframwaith llywodraethiant drwy ddatblygu a mabwysiadu Fframwaith Sicrwydd ar gyfer Llywodraethiant a thrwy'r Pwyllgor/Gweithgor Archwilio a Risg. Bydd yn rheoli ac yn monitro'n weithredol y gwaith o weithredu gwelliannau, ar ôl nodi'r materion o bwys o ran llywodraethiant y tynnwyd sylw atynt uchod, a bydd yn adrodd yn ôl ynghylch y rhain yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ar gyfer 2023-24.

**Atebolrwydd a chynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â materion o bwys o ran llywodraethiant**

**Adroddiad ynghylch y camau gweithredu a gymerwyd yn ystod 2022-23 i fynd i'r afael â materion o bwys y flwyddyn flaenorol o ran llywodraethiant**

| Mater | Camau gweithredu | Diweddariad ynghylch cynnydd |
|---|---|---|
| Ymddiried yn y Pwyllgor Archwilio a Chraffu i graffu ar y modd y caiff y Cynllun Gweithredu ei gyflawni. | Mae'r mater wedi'i fonitro yn rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio a Chraffu, a bydd yn awr yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Archwilio a Risg dan y Cynllun Dirprwyo newydd. | **Yn parhau**<br>Pawb i gytuno ar Gynllun 2022 erbyn diwedd mis Gorffennaf 2022. Monitro gan y Pwyllgor Archwilio a Risg bob chwarter, ac yn fanwl gan Weithgor y Pwyllgor Archwilio a Risg (sydd i'w sefydlu yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 1 Gorffennaf).<br><br>Ymgynghorydd a benodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gael i helpu i wneud cynnydd (Medi 2022). |
| Adolygu ac egluro rolau a chyfrifoldebau **Aelodau a Swyddogion** er mwyn sicrhau bod safonau ymddygiad a gofynion o ran ymddygiad yn glir ac yn ddiamwys, sy'n cynnwys beth y dylid ei wneud os nad yw pethau'n gweithio. | Gweithredu'r Cynllun Dirprwyo newydd a'r Strwythur Pwyllgorau newydd. | **Cwblhawyd** – Y strwythur pwyllgorau newydd ar waith ers 1 Gorffennaf 2022 (y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol) a gweithdy i sefydlu'r Cynllun Dirprwyo wedi'i gynnal ym mis Mai 2023. |
| | Sicrhau bod y modd y mae'r rhain yn gweithio'n cael ei fonitro'n rheolaidd, drwy rag-gyfarfodydd a chyfleoedd strwythuredig i fyfyrio ynghylch y gwersi a ddysgwyd / cyfarfodydd. | **Cwblhawyd** |
| | Adolygu dogfennau allweddol – protocolau Aelodau/Swyddogion, cod ymddygiad, Rheolau Sefydlog, ac ati. | **Yn parhau** – dogfen ar wahân wedi'i chreu sy'n cynnwys y broses ar gyfer adolygu dogfennau allweddol. |
| | Prif Weithredwr i adolygu rôl y Swyddog Monitro / Cyfreithiwr, gyda'r bwriad o sicrhau bod y rôl yn rhan barhaol o'r sefydliad. | **Cwblhawyd** – cymeradwywyd gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar 29 Gorffennaf 2022. |
| | Diwygio telerau ac amodau Aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru. | **Cwblhawyd** – Mai 2022. |
| | Cynorthwyo penodiadau gan awdurdodau lleol. | **Cwblhawyd** – cyngor wedi'i anfon i awdurdodau lleol ynghylch Aelodau a benodir, Ebrill 2022. |
| Datblygu rhaglen o hyfforddiant a chymorth i sicrhau bod **pob Aelod a Swyddog** yn deall eu cyfrifoldebau a'r ymddygiad a ddisgwylir ganddynt. | Rhaglen sefydlu i Aelodau er mwyn sicrhau bod yr agweddau hynny'n cael sylw priodol. | **Cwblhawyd** – ar waith ers mis Mehefin 2022. |

| Mater | Camau gweithredu | Diweddariad ynghylch cynnydd |
|---|---|---|
| | Prosesau rheolaidd ar gyfer adolygu a dysgu gwersi i'w sefydlu. | **Yn parhau** |
| | Uwch-swyddogion i fod yn rhan o'r broses sefydlu a hyfforddiant parhaus, fel bod safonau y mae pawb yn eu deall yn cael eu pennu. | **Cwblhawyd** – ar waith ers mis Mehefin 2022. |
| | Yr Awdurdod i sicrhau bod Swyddogion yn deall y Cynllun Dirprwyo mewn perthynas â chyfrifoldebau a bod safonau ymddygiad yn cael eu hymgorffori mewn systemau arfarnu staff. | **Yn parhau** – cynhaliwyd gweithdy gyda'r Uwch-swyddogion a'r Aelodau ym mis Mai 2022. Mae angen o hyd i'r gweithdy hwnnw gael ei raeadru i'r holl Swyddogion, ac mae wedi'i gynnwys mewn camau gweithredu ar gyfer 2024/25. |
| Sicrhau y glynir yn gaeth wrth bob polisi allweddol ar gyfer safonau ymddygiad a gofynion o ran ymddygiad. | Mae cefnogaeth wedi bod ar gael i gymryd camau gweithredu priodol pan na chaiff y safonau gofynnol eu cyrraedd. | **Yn parhau** – Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn chwarae mwy o ran yng nghyfarfodydd eraill yr Awdurdod (mae trefniadau arsylwi wedi dechrau).<br><br>Mae'r Awdurdod wedi mynd i'r afael ag Aelodau nad oedd eu hymddygiad yn cyrraedd y safonau gofynnol, ac mae wedi gofyn am gymorth mewn perthynas â nhw.<br><br>Mae'r elfen o'r hyfforddiant sefydlu a oedd yn ymwneud â'r Fframwaith Moesegol wedi cael ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Safonau er mwyn sicrhau pwyslais priodol ar safonau ac ymddygiad. |
| | Pwysleisio safonau ac ymddygiad yn rhan o hyfforddiant sefydlu i Aelodau newydd. | |
| | Sicrhau bod Aelodau newydd yn cael polisïau perthnasol a'u bod yn deall gweithdrefnau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer mynegi pryderon am ymddygiad. | |
| Adolygu yn ystod y 12 mis nesaf sut y mae newidiadau i gyfrifoldebau a rolau **Aelodau a Swyddogion** yn gweithio'n ymarferol. | Proses o adolygu'n rheolaidd a dysgu gwersi. | **Yn parhau** – wedi'i gynnwys fel adolygiad cynghorol yng Nghynllun Archwilio Mewnol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2022/23.<br><br>Y gwaith o adolygu'r modd y caiff y Cynllun Dirprwyo ei weithredu a'i ddeall heb ei gwblhau o hyd.<br><br>Adolygwyd yn rhan o waith dilynol Archwilio Cymru a'i lythyr dyddiedig 5 Mai 2023. |
| | Ymgorffori yn y rhaglen archwilio mewnol ar gyfer adolygu. | |

| Mater | Camau gweithredu | Diweddariad ynghylch cynnydd |
|---|---|---|
| | | Roedd yn fwriad cynnal archwiliad mewnol ym mis Mawrth 2023, ond cytunwyd nad oedd hynny'n ofynnol oherwydd y gwaith manwl a gâi ei gyflawni gan Archwilio Cymru yn y maes hwn. |
| Sicrhau bod yr holl bapurau perthnasol i gyfarfodydd yr Awdurdod yn cael eu hysgrifennu mewn iaith blaen, syml a chlir sy'n esbonio termau technegol, sy'n osgoi jargon ac sy'n egluro'r rhesymeg dros argymhellion yn glir. | Adolygu dull yr Awdurdod o ymdrin â phapurau. | **Cwblhawyd** – ar waith ers mis Hydref 2022. |
| | Bwrdd Gweithredol newydd i weithredu fel cam cymeradwyo ar gyfer unrhyw bapurau sy'n mynd i'r Awdurdod. | |
| | Gofyn am adborth ynghylch papurau fel mater o drefn. | |
| Argymell bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gofyn ar frys am gymorth Gweinidogion Cymru i fynd i'r afael â'r problemau o bwys o ran llywodraethiant. | O gofio'r newidiadau i Aelodaeth yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i ddatblygu cynllun gweithredu newydd er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion statudol Chwefror 2021 a'r materion a godwyd yn adroddiadau Archwilio Cymru ym mis Mawrth 2022. | **Cwblhawyd** – ysgrifennodd y Prif Weithredwr at y Gweinidog Newid Hinsawdd ar 15 Mawrth 2022, a chynigiwyd cymorth ar 20 Ebrill. Cafodd Swyddog ei bennu gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gyda'r gwaith o gyflawni'r cynllun ym mis Ebrill 2022. |
| Chwilio am gymorth sy'n ei gwneud yn bosibl egluro rolau'r holl Aelodau a'r hyn a ddisgwylir ganddynt, a help cyfatebol i fynd i'r afael â'r anghenion o ran datblygiad a chymorth sydd gan yr Aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru. | Diwygio telerau ac amodau Aelodau newydd a benodir gan Lywodraeth Cymru. | **Yn parhau** – Aelodau newydd wedi'u recriwtio ym mis Ionawr 2023, a thelerau ac amodau Aelodau newydd a benodwyd wedi'u diwygio.<br><br>Cynhaliwyd gweithdy gyda'r Aelodau a'r Uwch-swyddogion ym mis Mai 2023 er mwyn sefydlu'r Cynllun Dirprwyo newydd. Mae'r gwaith hwn yn parhau yn rhan o'r model gweithredu newydd sy'n cael ei lunio gyda chymorth gan Ymgynghorydd a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. |
| | Recriwtio Aelodau newydd a benodir gan Lywodraeth Cymru. | |
| | Rhaglen sefydlu newydd ar gyfer Aelodau newydd.<br><br>Adolygu a gwerthuso'r rhaglen sefydlu newydd. | |
| | Adolygu'r trefniadau ar gyfer arfarnu Aelodau ac asesu argymhellion ynghylch ymestyn eu tymor. | |
| | Sefydlu'r Cynllun Dirprwyo newydd a Strwythur Pwyllgorau newydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol fel sylfaen llywodraethiant da yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. | |
| | Gwybodaeth am gynnydd o ran y cynllun hwn i'w rhannu'n rheolaidd â'r staff gan y Prif Weithredwr a'r uwch dîm. | |
| Capasiti | Bwrdd Gweithredol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i ddatblygu | **Yn parhau** – Uwch Dîm Arwain yn ei le ers mis Mehefin 2022. |

| Mater | Camau gweithredu | Diweddariad ynghylch cynnydd |
|---|---|---|
| | cynllun er mwyn mynd i'r afael â phroblemau o ran capasiti[1] | Aeth papur dadansoddi bylchau gerbron yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ym mis Medi 2022, ac mae model gweithredu newydd yn cael ei ddatblygu er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y papur hwnnw.<br><br>Y Prif Weithredwr yn rhoi diweddariadau rheolaidd ynghylch cynnydd i'r staff ym mhob cyfarfod staff. |
| | Cytuno bod amrywio ffynonellau incwm yn elfen allweddol o feithrin capasiti yn y sefydliad. | |
| | Staff i gael eu cynnwys yn rheolaidd ynghylch statws y cynllun. | |
| **Ailadeiladu capasiti staff twristiaeth** A2 Rydym yn argymell bod yr Awdurdod: • yn adolygu capasiti'r staff twristiaeth cyfredol yn unol â dyheadau Bannau'r Dyfodol, sef Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol; • yn ailadeiladu'r capasiti twristiaeth a'r capasiti staffio i sicrhau bod modd cyflawni nodau Bannau'r Dyfodol; • yn ystyried yr angen i gael capasiti staffio ychwanegol mewn meysydd arbenigol priodol, ee staff cyfathrebu a staff dadansoddi data. | Bydd y cynllun hwn hefyd yn cynnwys Cynllun Gweithredu Archwiliad ar wahân er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion yr Archwiliad Twristiaeth Gynaliadwy ynghylch capasiti. | **Cwblhawyd** – adroddwyd ynghylch adroddiad yr archwiliad wrth yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar 29 Gorffennaf 2022, ac mae'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle wrthi'n awr yn mynd drwy'r cynllun gweithredu. |

[1] Mae problemau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o ran capasiti'n broblemau eang a sylweddol. Maent yn amrywio o'r angen i fynd i'r afael ar frys â'n hanghenion o ran llety i benderfynu ar ddull o reoli ein safleoedd (h.y. o safbwynt y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r safle), datblygu strategaeth fasnachol a mynd i'r afael â bylchau yn y sefydliad o safbwynt datblygu busnes, y gallu i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn enwedig y gymuned amaethyddol, y gallu i weithio mewn partneriaeth o amgylch lleoedd prysur, ac archwilio posibiliadau o safbwynt mynd i'r afael â chydnerthedd ein gwasanaethau corfforaethol a'n problemau o ran gallu. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn wynebu nifer o heriau o ran capasiti, sy'n ymwneud â'i gymhlethdod gweinyddol cymharol, o gymharu â Pharciau Cenedlaethol eraill Cymru, ac mae angen dod â hynny i'r amlwg hefyd a'i ystyried.

**Cynllun gweithredu i fynd i'r afael â materion o bwys o ran llywodraethiant yn 2023-24**

| Mater | Cam gweithredu | Yn gyfrifol |
|---|---|---|
| Llywodraethiant a Sicrwydd | Mabwysiadu a sefydlu Fframwaith Sicrwydd ar gyfer Llywodraethiant.<br><br>Datblygu System Adrodd.<br><br>Gweithredu Strwythur Gweithredol. | Y Bwrdd Gweithredol gyda chymorth gan Ymgynghorydd Llywodraethiant a benodwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd. |
| Datblygu Sefydliadol | Cyflawni Cynllun Datblygu Sefydliadol.<br><br>Datblygu Gweithdrefnau Gweithredu Safonol.<br><br>Datblygu system ar gyfer gwella trefniadau cyfathrebu mewnol a dysgu corfforaethol.<br><br>Cyflwyno hyfforddiant ynghylch y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion er mwyn hybu dealltwriaeth well o ddyletswyddau (*cariwyd drosodd o'r cynllun gweithredu blaenorol*) | Y Bwrdd Gweithredol. |
| Argymhellion o Archwiliad o Gyfrifon 2021-22 | Bod y Gofrestr Asedau Sefydlog yn cael ei diweddaru'n briodol.<br><br>Bod Datganiadau Blynyddol Partïon Cysylltiedig yn cael eu cwblhau.<br><br>Bod hyfforddiant rheolaidd ynghylch twyll yn cael ei ddarparu i Swyddogion.<br><br>Datganiad Llywodraethiant Blynyddol mwy cryno. | Y Bwrdd Gweithredol. |

## Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog